WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

## Gan gynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015

# Cyngor Sir Fynwy

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 332A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins, Dave Wilson, Steve Wyndham, Allison Rees, Lisa Williams, Chris Pugh, Martin Gibson, Phil Morgan, Avril Watkins, Mike Palmer, Adam Marshall, Gareth Lewis a Paul Cunningham o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2014-15 7

Ar sail y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, Estyn, AGGCC, a Chomisiynydd y Gymraeg, mae'r Arolygydd Cyffredinol o'r farn bod ansicrwydd a fydd Sir Fynwy yn cydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2015-16 7

Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella 8

Adroddiad manwl

Cyflwyniad 12

Gweledigaeth a strategaeth 15

Llywodraethu ac atebolrwydd 18

Y defnydd o adnoddau 23

Cydweithio a phartneriaethau 31

Rheoli gwelliant 35

Perfformiad a chanlyniadau 42

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 54

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Fynwy 55

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Sir Fynwy 57

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 59

Atodiad 5 – Crynodeb o'r gwaith a wnaed ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol' 61

Atodiad 6 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: sylwadau ar barodrwydd 63

Atodiad 7 – Crynodeb o ganfyddiadau allweddol adroddiadau a ddyroddwyd ers yr AGB diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg 64

Atodiad 8 – Argymhellion adroddiad cenedlaethol 2014-15 70

Atodiad 9 – Argymhellion a wnaed a meysydd ar gyfer eu gwella, a nodwyd gan AGGCC yn ystod y flwyddyn 75

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ynghylch pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio i wella'r ffordd y cyflenwir eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yng Nghyngor Sir Fynwy (y Cyngor), ac yn dyfynnu hefyd o waith a wnaed gan yr Arolygiaethau Cymreig perthnasol. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r asesiadau a wnaed er pan gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf ym Mehefin 2014 ac yn cynnwys canfyddiadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a wnaed ym Mawrth 2015. Gan gymryd yr holl ganfyddiadau hyn i ystyriaeth, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn ag a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

2 Dymunwn wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen, ac a yw'r adroddiad yn hawdd i'w ddeall. Gellwch ddweud eich barn wrthym drwy anfon e-bost i post@archwilio.cymru neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

3 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad ei bod yn ansicr a fydd y Cyngor yn gallu ymateb yn gadarnhaol i'r heriau mewnol a'r heriau allanol sylweddol y mae'n eu hwynebu yn ogystal â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

4 Er mwyn goleuo'r casgliad hwnnw, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi manteisio hefyd ar ganfyddiadau'r gwaith Asesu Corfforaethol a wnaed yn y Cyngor yn ystod Mawrth 2015 ac a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Casgliad Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol yw **fod y Cyngor yn dangos uchelgais yn ei weledigaeth, brwdfrydedd i gyflawni ac ymrwymiad i weithio'n gydweithredol, ond fod angen ategu hynny gyda dull strategol sy'n eglur a chydlynol, a mecanweithiau cyflenwi effeithiol.**

5 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod gan y Cyngor weledigaeth ac ymdeimlad o bwrpas sydd wedi eu mynegi yn eglur ac yn cymryd i ystyriaeth y cyd-destun lleol, ond fod angen iddo ategu hynny gyda strategaeth drefniadol gydlynol ar gyfer ysgogi newid a chyflawni ei uchelgais; a
- bod diwylliant o ymddiriedaeth a pharch cilyddol yn bodoli rhwng Cynghorwyr a swyddogion ac yn creu perthnasau gwaith cynhyrchiol, er bod enghreifftiau o benderfyniadau y gellid bod wedi eu gwneud mewn ffordd fwy cadarn, gwybodus ac agored i herio effeithiol.

6 Canfuom hefyd fod y Cyngor wedi dechrau cryfhau ei gynllunio strategol er mwyn sicrhau gwell rheolaeth ar adnoddau, i'w helpu i gyflawni ei weledigaeth:

- mae trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn rhai cadarn yn gyffredinol, ond gellir eu datblygu ymhellach er mwyn cynorthwyo'n well y modd y cyflawnir gweledigaeth strategol y Cyngor a wynebu'r heriau ariannol sydd ar y gorwel;
- mae'r Cyngor wedi sefydlu Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad, ond er mwyn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau dynol, dylid atgyfnerthu'r Strategaeth hon drwy gynllunio'r gweithlu ledled y sefydliad, sicrhau data gweithlu sy'n gyflawn a manwl gywir, a phroses arfarnu a weithredir yn llawn, ledled y Cyngor;
- mae gan y Cyngor bolisi strategol eglur ar reoli asedau, ond yn ymarferol, gellid rheoli'r asedau yn fwy effeithiol i gynorthwyo gyda chyflawni'r blaenoriaethau strategol;
- mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau Technoleg Gwybodaeth i gefnogi ei weledigaeth strategol, ond mae angen gwneud rhagor o waith; ac
- mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau digonol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth, ond mae'n cydnabod bod rhai gwendidau ac wedi dechrau rhoi sylw iddynt.

7 Canfuom hefyd:

- Bod gan y Cyngor ddiwylliant o gydweithio a'i fod yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid a phartneriaid cymunedol; mae'n datblygu cynlluniau cyflenwi, targedau a threfniadau monitro a fydd yn ei alluogi i ddarparu eglurder ynglŷn â'r canlyniadau a ddisgwylir a dangos gwelliant.
- Er bod systemau, gweithdrefnau a chanllawiau wedi eu sefydlu, nid yw'r Cyngor yn rheoli perfformiad, gwelliant a risgiau mewn ffordd gyson. Canfuom hefyd, ar gyfer 2013-14 a 2014-15, fod y Cyngor yn eglur ynghylch yr hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni, ac yn gallu dangos ei fod yn symud i gyfeiriad positif o ran ei berfformiad; ond oherwydd cyfyngiadau mewn rhai o'i drefniadau nid yw'n llwyddo bob amser i ddangos effaith hynny, na meintioli gwelliant yn y canlyniadau. Daethom i'r casgliad:
  - Bod y Cyngor, o ran ei berfformiad, yn symud i gyfeiriad positif yn gyffredinol, ond mai cymysg oedd ei lwyddiant o ran cyflawni ei gynlluniau i wella canlyniadau.
  - Bod gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn parhau mewn mesurau arbennig, a bydd Estyn yn trefnu ymweliad monitro terfynol yn ystod yr hydref 2015, i asesu a fydd angen i'r awdurdod barhau mewn mesurau arbennig.

- Bod y Cyngor yn gweithio'n dda i wella'r canlyniadau i oedolion, ond fod y gwasanaethau i blant yn parhau'n wan mewn nifer o feysydd. Mae diogelu yn peri pryder penodol.
- Bod y Cyngor yn dangos uchelgais i adfywio'r trefi ac i greu cyfleoedd cyflogaeth, ond cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ganddo i ddangos gwelliant.
- Bod y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol, ond ei bod yn anodd iddo ddangos gwelliant oherwydd gwendid y modd y gosodir targedau.
- Bod y Cyngor yn gwella ei berfformiad ynglŷn â gwastraff ac ailgylchu.
- Yn gyffredinol, fod y Cyngor yn cyflenwi gwasanaethau amgylcheddol uwchlaw'r lefelau gofynnol; ac er gwaethaf toriadau cyllidebol sylweddol, fod y rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaethau presennol, er mai ychydig o ymwybyddiaeth oedd ganddynt o'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Byddai'n anodd i'r Cyngor ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau statudol newydd i ddiogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd.
- Bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn y mater o dalu Taliadau Tai Disgresiynol, ond oherwydd rhai gwendidau yn y ffordd y darperir gwybodaeth i'r cyhoedd a dogfennu polisïau, nid oes sicrwydd a ddarparwyd yr adnoddau i'r rhai oedd fwyaf mewn angen.
- Bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ymgysylltu â phreswylwyr lleol a gwella'i wasanaethau cyfieithu.

## Gwaith archwilio perfformiad 2014-15

8 Wrth benderfynu ar gwmpas y gwaith a ymgymerid yn ystod y flwyddyn, buom yn ystyried maint yr wybodaeth archwilio ac arolygu a oedd wedi cronni yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso Cyngor Sir Fynwy ei hunan. Ar gyfer 2014-15, cynaliasom adolygiadau gwelliant ac asesiad corfforaethol, gan adrodd am hynny o dan chwe thema, sef: gweledigaeth a strategaeth; llywodraethu ac atebolrwydd; y defnydd o adnoddau; cydweithio a phartneriaethau; rheoli gwelliant; a pherfformiad a chanlyniadau.

9 Fel ‘olrheinyddion’ i goleuo meysydd yn yr Asesiad Corfforaethol, buom yn adolygu dull y Cyngor o fynd ati i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Yn yr adolygiad aseswyd dull y Cyngor o gadw risgiau dan reolaeth, effeithiolrwydd y modd y mesurir llwyddiant, a’r modd y mae’r Cyngor yn dysgu ac yn addasu ei ddulliau yn unol â hynny. Roedd yr adolygiad yn cynnwys mentrau fel a ganlyn, y cyfeirir atynt yn gyson yn yr adroddiad:

- Timau Adfywio Canol Trefi
- CMC2 (cwmni buddiannau cymunedol Sir Fynwy)
- Canolfan ar gyfer Arloesi
- Cydgysylltu Cymunedol

10 Rhestrir y gwaith sydd wedi ei gyflawni ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y ‘rheoleiddwyr perthnasol’, yn Atodiad 5.

11 Yn ychwanegol at y rhaglen hon o waith archwilio, gofynnodd Cyngor Sir Fynwy i’r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad o barodrwydd y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol arfaethedig (y Ddeddf). Rhoddir crynodeb o’r gwaith hwnnw yn Atodiad 6.

## Ar sail y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, a rheoleiddwyr perthnasol, Estyn, AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg, mae’r Archwilydd Cyffredinol o’r farn bod ansicrwydd a fydd Sir Fynwy yn cydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2015-16

12 Un ffactor arwyddocaol a arweiniodd yr Archwilydd Cyffredinol i’r casgliad ei bod yn ansicr a fydd Sir Fynwy yn cydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2015-16, yw fod angen i wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc barhau mewn mesurau arbennig. Byddwn yn parhau i adolygu’r sefyllfa hon drwy gydol 2015-16, yn enwedig yng ngoleuni ymweliad monitro terfynol Estyn yn ystod yr hydref, 2015.

13 Rhoddir crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr adroddiadau a ddyroddwyd ers yr AGB diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg yn Atodiad 7.

## Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella

14 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn a fydd yn digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

15 Rydym wedi gwneud nifer o gynigion i'r Cyngor ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn, ac mae'r rhai ohonynt sy'n deillio o'r Asesiad Corfforaethol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol yn yr adroddiad hwn. Pan ydym wedi gwneud cynigion i'r Cyngor ar gyfer gwella, yn yr adroddiad hwn ac yn ein hadroddiadau eraill, byddwn yn parhau i'w monitro yng nghwrs ein gwaith o asesu gwelliant.

## Cynigion Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella

16 Fel rhan o'n Hasesiad Corfforaethol ym Mawrth 2015, rydym wedi gwneud naw cynnig ar gyfer gwella, fel a ganlyn:

| Cynigion Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| **C1** | Ymgysylltu yn fwy effeithiol â'r staff, er mwyn sicrhau bod gwerthoedd y Cyngor yn gwbl amlwg, ledled y sefydliad. |
| **C2** | Gwella'r cynllunio strategol drwy:<br>• sicrhau bod dolenni cyswllt eglur rhwng strategaethau a'r blaenoriaethau a gytunir; a<br>• datblygu strategaethau cydlynol i gryfhau a chynnal dull cadarn o wneud penderfyniadau. |
| **C3** | Sicrhau bod yr addasiadau a'r newidiadau arfaethedig i 'Check In Check Out' yn darparu proses eglur ar gyfer asesu a gwella perfformiad yr holl staff, a bod yr amcanion a bennir ar gyfer adrannau, timau ac unigolion yn gyson ag amcanion corfforaethol y Cyngor. |
| **C4** | Sicrhau bod y swyddogaethau arbenigol canolog, megis cyllid a chaffael, yn cydweithio'n agosach â'r meysydd gwasanaeth unigol er mwyn dod o hyd i arbedion posibl, asesu maint yr arbedion y gellid eu gwneud, a'r posibiliadau ar gyfer cyfuno cyllidebau gyda phartneriaid. |
| **C5** | Mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth, neu weithio ar y cyd ag eraill, sy'n fwy cynlluniedig ac asesedig o ran risg, er mwyn gwneud gwell defnydd o'r adnoddau. |
| **C6** | Datblygu ymhellach, a mewnblannu, trefniadau rheoli perfformiad er mwyn caniatáu i'r Cyngor wneud partneriaid yn atebol a cynorthwyo'r Bwrdd Gwasanethau Lleol i gyflawni ei gynlluniau. |
| **C7** | Cryfhau'r trefniadau llywodraethu a herio drwy:<br>• sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu llofnodi yn y cyfarfod addas nesaf yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, er mwyn gwella prydlondeb a thryloywder y modd yr adroddir wrth y cyhoeddl; ac<br>• ailystyried polisi'r Cyngor o beidio â chadw cofnodion ffurfiol yng nghyfarfodydd y Cabinet. |

| Cynigion Asesiad Corfforaethol ar gyfer Gwella | |
| --- | --- |
| **C8** | Datblygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio'r gweithlu drwy gynnwys data manwl- gywir a gwybodaeth reoli allweddol am faterion gweithlu ac ystadegau, gan adrodd yn rheolaidd wrth yr Uwch-arweinwyr a'r Timau Rheoli, i'w galluogi i fonitro cynnydd a rheoli'r materion hyn yn effeithiol a chyson. |
| **C9** | Gwella'r trefniadau rheoli perfformiad drwy:<br>• sicrhau bod y gwelliannau a gynllunnir yn rhai diriaethol;<br>• gwella'r dull o osod targedau, fel eu bod yn well adlewyrchiad o'r gwelliant a geisir, a sicrhau y dyrennir adnoddau ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor drwy'r Cynllun Ariannol Canoldymor;<br>• datblygu trefniadau ar gyfer pennu'r canlyniadau a ddisgwylir, y targedau a'r modd y cesglir data, pan ddefnyddir modelau amgen i gyflenwi gwasanaethau; a<br>• gwella'r trefniadau i ddiogelu ansawdd y data, er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau perfformiad yn gywir ac y gwneir penderfyniadau ar sail gwybodaeth gadarn. |

## Argymhellion Eraill a Chynigion Eraill ar gyfer Gwella

17 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i Gynghorau yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Gellir gweld rhestr o'r argymhellion perthnasol a gynhwyswyd mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2014-15 yn Atodiad 8.

18 Yn ychwanegol, mae'r argymhellion a wnaed, a'r meysydd ar gyfer eu gwella a nodwyd, gan AGGCC yn ystod y flwyddyn wedi eu rhestru yn Atodiad 9.

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

19 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru ) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn y modd y cyflwynir eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

20 Yn 2014-13, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru ar gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol o'r awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd pob Cyngor, yn ychwanegol at raglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau'r cynghorau o gynllunio ac adrodd am welliant, yn cael Asesiad Corfforaethol treiddiol unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng asesiadau byddwn yn cadw datblygiadau o dan arolwg ac yn canolbwyntio, yn ein gwaith asesu pellach, ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaethau gyda phob Cyngor unigol.

21 Gwnaethom ein gwaith maes ar gyfer ein Hasesiad Corfforaethol o Gyngor Sir Mynwy (y Cyngor) yn ystod mis Mawrth 2015. Mae'r adroddiad gwella blynyddol hwn yn cynnwys yr adroddiad Asesu Corfforaethol yn ogystal â chrynodeb o'r adroddiadau rheoleiddiol a ddyroddwyd i'r Cyngor ers cyhoeddi'r adroddiad gwella blynyddol diwethaf ym Mehefin 2014. Er na fwriedir i'r Asesiad Corfforaethol ddarparu dadansoddiad cynhwysfawr o holl wasanaethau'r Cyngor, mae'n adrodd am hanes perfformiad a chanlyniadau'r Cyngor, yn ogystal â'r trefniadau allweddol sy'n angenrheidiol fel sylfaen ar gyfer gwelliannau yn ei wasanaethau a'i swyddogaethau.

22 Ymgymerwyd â'r gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan yr Arolygiaethau Cymreig, sef Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi cydosod darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, y modd y mae'n mynd ati i wneud hynny, a'r cynnydd a wnaeth er pan gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Yn olaf, gan gymryd hyn oll i ystyriaeth, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn ag a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

23 Ni ddylid synio am y casgliad hwnnw fel datganiad diffiniol o iechyd y sefydliad, nac fel rhagfynegiant o lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn darparu barn ar i ba raddau mae'r trefniadau sydd wedi ei sefydlu ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, ar sail yr hyn y gellir ei ddirnad ar sail y gwaith a wnaed.

24 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae'r trefniadau yn cyfrannu at wella perfformiad y gwasanaethau a gwella'r canlyniadau i ddinasyddion. Roedd yr asesiad corfforaethol yn ceisio cael ateb i'r cwestiwn:

**'A yw'r Cyngor yn alluog i gyflawni ei flaenoriaethau a chyflenwi gwell canlyniadau i ddinasyddion?'**

25 Mae'r Asesiad Corfforaethol yn cwmpasu'r canlynol:

**Gweledigaeth a chyfeiriad strategol**

'A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cynorthwyo gwelliant?'

**Llywodraethu ac atebolrwydd:**

'A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn gymorth i wneud penderfyniadau cadarn ac effeithiol?'

**Y defnydd o adnoddau:**

'A yw'r cyngor yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol, er mwyn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd yn y perfformiad a'r canlyniadau?'

**Cydweithio a phartneriaethau:**

'A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer cydweithio a phartneriaethau yn gweithredu'n effeithiol er mwyn darparu gwell perfformiad a chanlyniadau?'

**Rheoli a gwelliant:**

'A yw'r Cyngor yn rheoli ei raglen gwella yn effeithiol?'

**Perfformiad a chanlyniadau:**

'A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r gwelliant a gynlluniwyd yn y perfformiad a'r canlyniadau?'

26 Mae'r casgliadau sydd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, ac oni nodir yn wahanol, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg y daethpwyd i'r casgliadau hynny.

27 Er pan wnaed ein gwaith maes Asesu Corfforaethol, rydym wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Pennaeth Polisi a Phartneriaethau ac wedi trafod ein canfyddiadau 'dros dro'. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r canfyddiadau hynny ac wedi ymrwymo i roi sylw i'r materion a godwyd.

Mae'r Cyngor yn dangos uchelgais yn ei weledigaeth, brwdfrydedd i gyflawni ac ymrwymiad i weithio'n gydweithredol, ond mae angen ategu hynny gyda dull strategol sy'n eglur a chydlynol, a mecanweithiau cyflenwi effeithiol

# Gweledigaeth a strategaeth

## Mae gan y Cyngor weledigaeth ac ymdeimlad o bwrpas a fynegwyd yn eglur ac sy'n cymryd i ystyriaeth y cyd-destun lleol, ond mae angen iddo ategu hynny gyda strategaeth drefniadol gydlynol ar gyfer ysgogi newid a chyflawni ei uchelgais

28 Mae'r Cynllun Integredig Sengl yn pennu tair thema, ac yn diffinio tri chanlyniad o fewn pob un o'r themâu, fel a ganlyn:

- Ni Chaiff Neb ei Adael ar Ôl
  - Gall pobl hŷn fyw eu bywyd da
  - Mae modd i bobl gael tai sy'n addas a fforddiadwy
  - Mae gan bobl hygyrchedd a symudedd da
- Mae'r Bobl yn Hyderus, yn Alluog ac yn Cymryd Rhan
  - Nid yw camddefnyddio alcohol a chyffuriau yn effeithio ar fywydau pobl
  - Mae teuluoedd yn cael cymorth
  - Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel
- Mae Ein Sir yn Ffynnu
  - Busnes a menter
  - Mae'r bobl yn cael mynediad at ddysgu ymarferol a hyblyg
  - Mae'r bobl yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd

29 Gosodwyd blaenoriaethau gwleidyddol y Weinyddiaeth Bartneriaeth yng Nghytundeb Partneriaeth 2012; adlewyrchir y blaenoriaethau hynny yng 'Nghynllun Gwella 2014- 17' (y Cynllun Gwella), ac maent yn cydweddu'n eglur â themâu a chanlyniadau'r Cynllun Integredig Sengl. Y blaenoriaethau hyn yw addysg, diogelu pobl hyglwyf, a chefnogi busnesau a chreu swyddi.

30 Mae'r blaenoriaethau strategol hyn yn cymryd i ystyriaeth dargedau lleol a blaenoriaethau cenedlaethol, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i'r bobl leol, a chanlyniadau a amlygwyd yn ddiweddar fel rhai sydd angen eu gwella, mewn adolygiadau archwilio, rheoleiddio ac arolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC ac Estyn. Mae'r Cyngor hefyd yn gosod ei flaenoriaethau yng nghyd-destun cymunedau cynaliadwy a chydnerth, yn unol â byrdwn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

31 Ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau hyn, mae gan y Cyngor bedwar o Amcanion Gwella:

- Byddwn yn darparu gwell darpariaeth addysg ar gyfer Sir Fynwy
- Byddwn yn gweithio i helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain drwy adeiladu gwasanaethau hyblyg ac ymatebol
- Rydym am alluogi ein sir i ffynnu
- Rydym am fod yn sefydliad effeithlon, effeithiol a chynaliadwy.

32 Mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wedi cymryd camau rhagweithiol i adolygu ei blaenoriaethau gwleidyddol a phennu ei dyheadau yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol gyfnewidiol. Yn Chwefror 2015, datganodd y bartneriaeth wleidyddol i ba gyfeiriad y bydd y Cyngor yn symud, sef: cadarnhau'r ymrwymiad i ganlyniadau'r Cynllun Integredig Sengl, gwrthod unrhyw newidiadau yn ei werthoedd, a chadw'r tair blaenoriaeth bresennol gan gynnig ychwanegu pedwaredd blaenoriaeth, sef 'cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol'. Mae hyn yn darparu sail eglur i'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau gan y swyddogion. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth wleidyddol yn rhwymo'r Cyngor i fod yn un o fabwysiadwyr cynnar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

33 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn trosi ei uchelgais yn effeithiol yn gynlluniau ar gyfer gwella. Roedd y Cyngor, yn ei Gynllun Gwella 2014-17 yn cynnwys 49 mesur perfformiad ar gyfer y pedwar Amcan Gwella, ond 28 (sef 57 y cant) yn unig o'r mesurau hynny oedd â thargedau penodol ar gyfer gwella. Roedd absenoldeb targedau eglur yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor arddangos maint y gwelliant a gynlluniwyd, yn anodd dal rheolwyr ac aelodau yn gyfrifol, ac yn anodd darparu her ledled y sefydliad. Mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i lawer o'r materion hyn yn ei Gynllun Gwella 2015-17; ond allan o'r 36 o ddangosyddion perfformiad mae tri sydd heb dargedau ar hyn o bryd, tri o'r targedau wedi eu gostwng o 2014-15 i 2015-16 heb unrhyw esboniad, ac nid yw'n ddigon eglur sut y mae rhai o'r targedau yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella.

34 Yn ogystal â'r diffyg eglurder mewn rhai meysydd o'r Cynlluniau Gwella ynghylch maint y gwelliant a gynllunnir, nid yw rhai o'r strategaethau, a ddylai fod yn sail i'r gwaith o gyflawni Amcanion Gwella y Cyngor, yn cysylltu yn eglur â'i gilydd, ac o ganlyniad nid ydynt yn llwyr ategu, mewn ffordd gydgysylltiedig, ddyheadau'r Cyngor i ysgogi gwelliant parhaus. Er enghraifft, mae gan y Cyngor strategaethau allweddol megis y Cynllun Ariannol Canoldymor, y Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad a'r Cynllun Rheoli Asedau. Yn y dogfennau hyn, fodd bynnag, nid oes mynegiant eglur o siâp y cyngor yn y dyfodol, er enghraifft: nifer y staff y bydd eu hangen, a pha sgiliau a fydd yn ofynnol er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor; pa fylchau sy'n bodoli o ran sgiliau, a sut y gellir cau'r bylchau hynny; beth fydd goblygiadau hynny i adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol a beth fydd effaith technoleg gwybodaeth. Bydd y toriadau cyllid presennol sy'n wynebu llywodraeth leol gofyn am newidiadau sylweddol yn y modd y cyflenwir gwasanaethau, a hynny, er enghraifft, yn effeithio ar yr anghenion gweithlu yn y dyfodol. Er mwyn ymateb i'r newidiadau hyn bydd cynlluniau a strategaethau cydlynol yn ofynnol.

35 Mae Amcanion Gwella'r Cyngor yn rhai pell-gyrhaeddol, ac mae Cytundeb Partneriaeth Sir Fynwy 2015 yn pennu'r blaenoriaethau gwleidyddol yn pennu'r blaenoriaethau gwleidyddol ar gyfer buddsoddi a dad-fuddsoddi. Nid yw'r blaenoriaethau hyn wedi eu hadlewyrchu'n eglur yn strategaethau presennol y Cyngor, er bod y Cyngor bellach yn dechrau rhoi sylw i hyn.  O ganlyniad, ni all y Cyngor ddangos bod ei adnoddau wedi eu sianelu, nac y cânt eu sianelu, i'r mannau lle mae'n dymuno iddynt gael yr effaith fwyaf.

## Mae'r Cyngor yn nodi yn eglur ei ddisgwyliadau o ddiwylliant o arweinyddiaeth agored a chynhwysol, er nad yw'r disgwyliadau hynny, hyd yma, wedi eu mewnblannu'n llawn yn y sefydliad

36 Mae'r Cyngor wedi mynegi ei werthoedd yn eglur. Yn ei Gynllun Gwella 2014-17 diffinnir ei ddiwylliant yn nhermau cyfres o werthoedd y bwriedir iddynt fod yn sail i holl waith y Cyngor ac yn ganllaw i'r ymddygiadau a ddisgwylir gan bawb sy'n gweithio i'r Cyngor neu gyda'r Cyngor. Y gwerthoedd hynny yw: didwylledd, tegwch, hyblygrwydd a gwaith tîm. Mae arweinwyr gwleidyddol y Cyngor yn mynegi ei weledigaeth a'i strategaethau'r yn eglur ac yn darparu arweiniad cadarnhaol. Mae aelodau'r Cabinet yn deall yn eglur fod y Cyngor yn newid o fod yn sefydliad cyflenwi gwasanaethau pur i fod yn awdurdod galluogi, sy'n cydweithio gyda chymunedau i'w helpu i wella eu hunain. Mae'r aelodau yn deall y bydd hyn yn golygu newid y ffordd y darperir rhai gwasanaethau, yn ogystal â'r sawl sy'n eu darparu.

37 Mae gan y Cyngor yr uchelgais a'r brwdfrydedd i hybu ffyrdd newydd o weithio ac o gyflenwi gwasanaethau, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu cyfleu a'u deall yn dda ledled y Cyngor. Mabwysiadwyd dull strwythuredig ar gyfer canfod arbedion cyllideb, templedi corfforaethol ar gyfer cynlluniau gwasanaeth, a'r arfer o we-ddarlledu cyfarfodydd y cyngor; ac mae'r rhain yn ddatblygiadau positif, yn unol â'r gwerthoedd sefydliadol. Fod bynnag, terfynwyd prosiect 'Canolfan Arloesi' tair-blynedd y Cyngor ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf, yn dilyn beirniadaeth gan yr aelodau; ac mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried beth fydd diben ei Gwmni Buddiannau Cymunedol CMC2 yn y dyfodol, wedi i'r newidiadau mewn grantiau llywodraeth beryglu ei hyfywedd ariannol.

38 Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylai wneud rhagor o ymdrech i gyfathrebu yn well. Yn ystod ein Hasesiad Corfforaethol, holwyd grŵp ffocws bychan o'r staff ynghylch yr Amcanion Gwella, ac un person yn unig oedd yn eu hadnabod yn gywir. Roedd y Cyngor ei hunan, mewn hunanasesiad a oedd yn rhan o'i baratoad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol, wedi nodi rhai gwendidau cyfathrebu. Adleisiwyd hynny mewn digwyddiad staff diweddar a drefnwyd gan y Cyngor, pan godwyd pryderon gan rai o'r staff ynglŷn â chyfathrebu.

39 Er bod arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor yn eglur ynglŷn â'i flaenoriaethau, eto, yn aml nid yw'r blaenoriaethau'n cael eu trosi'n weithredu effeithiol, na'u hadlewyrchu mewn modd adeiladol wrth ddiffinio, asesu a rheoli risgiau. Ar gyfer 2014-15, roedd cofrestr risgiau y Cyngor yn nodi tair risg fel risgiau isel, saith fel risgiau canolig, ac un fel risg uchel i'r holl awdurdod. Y risg uchel oedd 'posibilrwydd y bydd canfyddiadau negyddol o arolygiadau sydd yn yr arfaeth gan AGGCC ac Estyn yn dargyfeirio egni ymaith oddi wrth raglen o drawsnewidiadau uchelgeisiol'. Gellid dehongli hyn fel pe bai'n cyfleu bod y Cyngor yn pryderu mwy ynghylch y risg y gallai rheoleiddwyr dynnu eu sylw oddi ar y rhaglen o drawsnewidiadau, yn hytrach na'r risg o beidio â rhoi sylw i wendidau yn y gwasanaethau craidd.

# Llywodraethu ac atebolrwydd

## Mae diwylliant o barch cilyddol ac ymddiriedaeth yn bodoli rhwng Cynghorwyr a swyddogion ac yn creu perthnasau gwaith cynhyrchiol, er bod enghreifftiau o benderfyniadau y gellid bod wedi eu gwneud mewn ffordd fwy cadarn, gwybodus ac agored i herio effeithiol

### Mae gan y Cyngor rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n eglur, mae'n datblygu diwylliant o atebolrwydd ac yn ymgysylltu â'r staff i fewnblannu ei werthoedd a'i ymddygiadau disgwyliedig yn well

40 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn gyfoes. Diweddarwyd ef ddiwethaf ym Medi 2014 ac mae'n pennu rolau a chyfrifoldebau yn eglur ar gyfer aelodau a swyddogion.

41 Mae'r perthnasau rhwng aelodau ac uwch swyddogion yn gadarnhaol ac wedi eu seilio ar barch cilyddol ac ymddiriedaeth. Mae diwylliant cryf o broffesiynoldeb ymhlith yr aelodau, gyda nifer ohonynt yn cymryd cyfrifoldeb personol yn rhagweithiol am eu rolau.

42 Yn gyffredinol, cyflawnir busnes y Cyngor mewn ffordd broffesiynol ac adeiladol. Mae gwerthoedd y Cyngor, sef didwylledd, tegwch, hyblygrwydd a gwaith tîm yn amlwg yn y modd y mae cyfarfodydd yn gweithredu. Er enghraifft, strwythurir cyfarfodydd y Cyngor mewn ffordd sy'n sicrhau mewnbwn gan aelodau'r cabinet ac yn caniatáu cwestiynau gan arweinwyr gwrthbleidiau. Mae swyddogion yn bresennol i ateb cwestiynau technegol eu natur, a chan fod y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cael eu gwe-ddarlledu'n fyw, mae'r Cyngor yn profi ei fod yn hyrwyddo didwylledd ar y lefel hon.

43 Mae ystod o ganllawiau a hyfforddiant ar gael i'r aelodau. Un maes lle gwelir hyn yn amlwg mewn perthynas â'r swyddogaeth o graffu. Canllaw ar gyfer aelodau a phartïon eraill yw protocol Craffu a Gweithredol y Cyngor, sy'n amlinellu'r rhyngwyneb rhwng Craffu a'r Weithrediaeth a'r elfennau gweithdrefnol sy'n sail i'r berthynas rhyngddynt. Mae'r protocol yn pennu'r cyfrifoldebau allweddol, y gweithdrefnau a'r fframwaith craffu cyffredinol. Darperir llawlyfr craffu hefyd, sy'n rhoi cyflwyniad ar lefel uwch yn ogystal ag arweiniad symlach i'r broses o graffu. Mae'r canllawiau hyn yn ychwanegu at y gweithdrefnau a bennir yn y Cyfansoddiad ac yn darparu cymorth ymarferol.

44 Erbyn hyn mae gwerthoedd y Cyngor yn ymwreiddio fwyfwy, ledled y sefydliad. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â'r staff er mwyn gofyn eu barn mewn amryw o ffyrdd yn ystod 2014-15. Er enghraifft, roedd dros 1,000 o staff o'r gwahanol gyfarwyddiaethau yn bresennol mewn un digwyddiad staff, a 719 o staff o bob rhan o'r Cyngor wedi ymateb i'w arolwg staff. Yn y digwyddiad staff, roedd rhai a oedd yn bresennol yn cyfeirio at gryfderau yn ogystal a mynegi pryder ynghylch nifer o faterion, rhai ohonynt yn dynodi nad yw gwerthoedd y Cyngor bob

amser cael eu hamlygu yn ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch didwylledd, cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a lefel canfyddiad y staff fod y Cyngor yn eu gwerthfawrogi. Ailfynegwyd rhai o'r pryderon hyn wrthym ninnau yn ystod ein gwaith Asesu Corfforaethol. Roedd arolwg staff 2014-15 yn dangos gwell canlyniadau, gydag ychydig dros 50 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod 'yr Awdurdod yn byw ac yn anadlu ei werthoedd corfforaethol o ddidwylledd, tegwch, hyblygrwydd a gwaith tîm'. Mae'r Cyngor yn ymbaratoi i weithio gyda grŵp bychan o'r staff, er mwyn dod i ddeall pryderon y staff yn well, a chymryd camau priodol.

## Mae rheolaeth dda ar y risgiau a gymerir, ac ansawdd y penderfyniadau wneir, weithiau'n cael eu llesteirio gan ddiffyg cyfeiriad strategol, data o ansawdd gwael a chyfyngiadau o ran monitro cyfreithiol

45 Mae'r diffyg strategaethau cydlynol yn peri bod rhai mentrau'n cael eu cymeradwyo pan nad yw'n eglur i'r Cyngor sut y gallant gyflenwi gwell canlyniadau. Er enghraifft, er nad oedd mesurau deilliant ar gyfer Canolfan Arloesi'r Cyngor, y Mentrau Cydgysylltu Cymunedau a'r Cwmni Buddiannau Cymunedol CMC2 wedi eu diffinio'n eglur, cymeradwywyd y mentrau hyn. Mae rheolaeth dda ar y risgiau a gymerir yn angenrheidiol yn y sector cyhoeddus, ond rhaid i'r aelodau ddeall yn eglur sut y mae'r mentrau'n cydasio â'r fframwaith strategol cyffredinol, er mwyn sicrhau canlyniadau eglur ac osgoi risgiau nad ystyriwyd yn ddigonol.

46 Mae tystiolaeth nad yw ansawdd y data cystal ag y gallai fod ym mhob maes. Cynaliasom wiriad o ansawdd sampl bach o'r data, gan adolygu tri dangosydd strategol cenedlaethol a thri dangosydd lleol, ynghyd â'u systemau gwaelodol. Cawsom fod y dull o osod targedau, y trefniadau casglu data a'r rheolaethau yn wael ar gyfer tri o'r dangosyddion, a bod adroddiadau perfformiad yn anghywir o ganlyniad. Oherwydd y pryderon hyn ynghylch lefelau cyfredol y rheolaethau ar ansawdd data, ni all aelodau fod yn sicr bob amser bod penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a chywir yn yr adroddiadau.

47 Cyfyngedig yw'r gefnogaeth gyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Nid yw'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn aelod o'r Tîm Uwch-arweinwyr, er bod ganddo wahoddiad agored i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd. Er bod adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, mae hynny'n digwydd yn aml yn ystod y cyfnodau drafftio diweddar, sy'n cyfyngu ar y cyfle i wneud sylwadau ar ansawdd yr adroddiadau, asesu'n fanwl a ydynt yn deg a chytbwys ac a yw pob mater cyfreithiol pwysig wedi ei ystyried.

## Mae'r Cyngor wedi gwella tryloywder ei adroddiadau cyhoeddus ynghylch busnes y Cyngor, ond mae rhai gwendidau'n parhau

48 Mae gwefan y Cyngor yn dangos gwybodaeth am bob un o'i bwyllgorau cyhoeddus ac yn cynnwys dolennau sy'n rhoi mynediad at gofnodion allweddol megis agendâu, cofnodion pwyllgorau/cyfarfodydd a phenderfyniadau. Ar yr adeg y cynhaliwyd ein hadolygiad, cyfyngedig oedd yr wybodaeth a oedd ar gael mewn gwirionedd ar y wefan; roedd elfennau allweddol wedi eu hepgor, sy'n dynodi bod y trefniadau llywodraethu yn wan. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn uwchraddio ei wefan gan ddefnyddio mod.gov[1] ac yn poblogi'r wefan yn ôl-weithredol.

49 Digwyddodd enghreifftiau o oedi sylweddol cyn cymeradwy cofnodion pwyllgorau dethol. Mae'r cyfansoddiad yn pennu y dylid cymeradwyo cofnodion yn y cyfarfod addas nesaf sydd ar gael. Canfuom, fodd bynnag, enghreifftiau o gofnodion nad oeddent wedi eu cymeradwyo tan ar ôl nifer o gyfarfodydd diweddarach, ac ni allem ganfod, ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael, pam y digwyddodd y fath oedi.

50 Mae penderfyniadau'r Cabinet yn cael eu cofnodi, eu cyflwyno ar gyfer craffu arnynt, ac yna rhoddir y penderfyniadau ar gael ar wefan y Cyngor. Nid yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 na Chyfansoddid y Cyngor yn gwneud yn ofynnol cymryd cofnodion yng nghyfarfodydd y Cabinet a'u cymeradwyo fel cofnod cywir mewn cyfarfod. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod cymryd a chymeradwyo cofnodion yn arfer da, yn enwedig pan fo'r Cabinet wedi ystyried nifer o opsiynau cyn gwneud penderfyniad.

## Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella'r craffu, ond mae ansawdd gwael yr wybodaeth ac anwadalwch yr herio weithiau'n amharu ar y cynnydd a wneir

51 Mae'r craffu yn gwella ac wedi symud ymlaen cryn bellter o'r safle isel blaenorol. Yn 2010, daeth adolygiad o drefniadau archwilio Sir Fynwy gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod 'Craffu yn dechrau darparu herio mwy grymus ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fusnes y Cyngor'.

52 Mae cadeiryddion y Pwyllgorau Dethol bellach yn penderfynu ar eu rhaglenni gyda chymorth y Rheolwr Craffu, gan fanteisio ar ystod eang o ffynonellau, sy'n cynnwys: Blaengynlluniau Gwaith y Cyngor a'r Cabinet; awgrymiadau gan aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd; ac asesiad risg y Cyngor. Mae'r rhaglenni gwaith yn cael eu diweddaru fel y daw materion newydd i'r amlwg. Rhoddir yr holl raglenni gwaith craffu ar gael i'r cyhoedd ar-lein, ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu gwe-ddarlledu. Cynhelir cyfarfodydd cyn-craffu er mwyn penderfynu ar y trywydd a ddilynir wrth gwestiynu a gwella effeithiolrwydd y sesiynau; cofnodir yr argymhellion, ac ar ôl gweithredu cymerir camau dilynol. Mae hyn oll yn cyfrannu at wella prosesau gwaelodol y swyddogaeth graffu.

1 Ap yw mod.gov, a ddefnyddir i lawrlwytho yn awtomatig, darllen ac anodi papurau cyfarfodydd awdurdodau lleol, a sefydliadau eraill sy'n defnyddio'r system rheoli penderfyniadau modern.gov.

53 Dywed aelodau'r Pwyllgorau Dethol eu bod yn cael darpariaeth dda o gyfleoedd hyfforddi, ond nifer fach sy'n manteisio ar yr hyfforddiant. Ar gyfer aelodau craffu, darperir hyfforddiant helaeth, a drefnir ac a gydgysylltir gan y Rheolwr Craffu. Bu'r hyfforddiant yn ymdrin ag ystod eang o feysydd gan gynnwys gwella safon y craffu, herio, rheoli perfformiad, rheolaeth ariannol a chyllid ysgolion. Fodd bynnag, er bod hyfforddiant ar wybodaeth rheoli perfformiad wedi ei ddarparu i aelodau Pwyllgorau Dethol yn ystod yr haf 2014, llai na 40 y cant o'r aelodau a fanteisiodd ar yr hyfforddiant hwnnw.

54 Er bod system graffu wedi ei sefydlu a phrotocol ar waith, mae'r gallu i herio yn rhagweithiol yn cael ei lesteirio gan densiynau mewn cysylltiad â phresenoldeb aelodau'r cabinet a'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd a chan wybodaeth o ansawdd gwael. Deallwn mai ar adegau prin y bydd Aelodau Cabinet yn methu â bod yn bresennol mewn Pwyllgorau Dethol, ond ar yr adegau pan oeddem yn arsylwi ar Bwyllgorau Dethol diweddar, canfuom eu bod yn craffu ar nifer o benderfyniadau er nad oedd yr Aelodau Cabinet perthnasol yn bresennol. Swyddogion oedd yn cyflwyno'r adroddiadau a hefyd yn ymateb i'r ymholiadau a godwyd. Yn achos un penderfyniad, a oedd yn ymwneud â mater polisi, nid oedd modd cyrraedd unrhyw gasgliad oherwydd nad oedd yr Aelod Cabinet yn bresennol. Ar achlysur arall, er bod yr Aelod Cabinet yn bresennol y tro hwnnw, ni chyflwynodd yr Aelod yr adroddiad ac nid atebodd unrhyw ymholiadau; y swyddog a gyflawnodd y ddwy swyddogaeth.

55 Wrth arsylwi, gwelsom enghreifftiau hefyd o'r canlynol: adroddiadau a oedd yn rhy aneglur i alluogi'r aelodau ddeall materion pwysig; aelodau yn datgan pryder ynghylch canfyddiad o ddiffyg gwrthrychedd adroddiadau a ystyrid yn or-gadarnhaol; ac adroddiad a ohiriwyd oherwydd diffyg gwybodaeth. Oni fydd aelodau'r Pwyllgorau Dethol yn cael yr wybodaeth briodol yn brydlon, ni fydd modd iddynt gyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol.

56 Weithiau mae diffyg targedau eglur yn ei gwneud yn anodd i'r aelodau craffu asesu perfformiad a chynnig her ddigonol i aelodau'r Cabinet a'r swyddogion, ac mae hynny'n llesteirio atebolrwydd.

57 Fodd bynnag, mae diwylliant o atebolrwydd unigol ar gynnydd ymhlith yr uwch-wleidyddion. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr Arweinydd drefniant ar gyfer arfarnu aelodau ac o gynnal cyfarfodydd un-i-un yn rheolaidd gydag Aelodau o'i Gabinet, ar draws y ddau grŵp gwleidyddol sy'n rhan o'r weinyddiaeth bartneriaeth, er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu, a'u dal yn gyfrifol am berfformiad o fewn eu portffolios. Mae hyn yn cael ei ddatblygu a'i reoli yn dda, ac mae wedi ei dderbyn gan holl Aelodau'r Cabinet fel datblygiad adeiladol a fydd yn cryfhau atebolrwydd a'r ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau.

58 Mae sesiynau Herio Penaethiaid Gwasanaethau wedi eu cyflwyno, gyda'r Aelod Cabinet a'r Prif Swyddog perthnasol yn bresennol ym mhob sesiwn. Cynhaliwyd saith o'r sesiynau hyn hyd yma, ac mae tair arall wedi eu trefnu. Mae'r Cyngor wedi dechrau gwerthuso'r sesiynau Herio Penaethiaid Gwasanaethau er mwyn canfod pa effaith a gânt, ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i wella effeithiolrwydd yr herio mewnol. Wrth arsylwi ar un o'r sesiynau hyn, gwelsom fod y broses wedi ei strwythuro'n dda, a bod swyddogion ac aelodau yn ei chroesawu fel cyfle i rannu gwybodaeth, ond mae'n rhy gynnar i ddweud beth yw effaith y sesiynau ar ganlyniadau'r gwasanaethau.

59 Mae'r Cyngor yn cydweithio'n dda gyda chyrff adolygu allanol i'w helpu i gyflawni eu rhaglenni rheoleiddio, ac yn ymateb yn brydlon ar gyfer llofnodi ymaith yr adroddiadau, ond weithiau nid yw'n llwyr dderbyn y negeseuon a gyflëir, ac mae'n edrych ar reoleiddio fel rhywbeth sy'n tynnu ei sylw oddi wrth ei fusnes creiddiol ei hunan. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd rhai gwasanaethau yn cymryd mwy o amser i wneud gwelliannau pwysig yn y polisïau a'r gweithdrefnau ac i wella'r canlyniadau.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae'r Cyngor wedi dechrau cryfhau ei gynllunio strategol er mwyn sicrhau y rheolir ei adnoddau yn well i'w helpu i gyflenwi ei weledigaeth

### Mae trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn rhai cadarn at ei gilydd, er y gellid eu datblygu ymhellach er mwyn cynorthwyo'n well y gwaith o gyflawni gweledigaeth strategol y Cyngor ac ymdopi â'r heriau ariannol sy'n ei wynebu

60 Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau rheolaeth ariannol sy'n gadarn yn gyffredinol. Mae Cynllun Ariannol Canoldymor wedi ei baratoi, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru i adlewyrchu amgylchiadau cyfnewidiol, ac ategir y Cynllun hwnnw gan reolaethau cyllidebol datblygedig. At ei gilydd, mae hanes blaenorol y Cyngor yn dda, o ran rheoli ei adnoddau ariannol o fewn ei gyllideb.

61 Mae'r Cyngor, ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru, yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Yn ystod yr hydref, 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cyllid refeniw y cyngor yn gostwng 4.5 y cant. Roedd hyn yn amlwg yn her sylweddol i'r Cyngor, ac er bod cyfanswm arbedion o £5.3 miliwn wedi ei ganfod er mwyn gosod cyllideb fantoledig ar gyfer 2015-16, mae bwlch o £10 miliwn yn aros yn y cyllid ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun Ariannol Canoldymor (sef 2016-17 i 2018-19).

62 Wrth benderfynu ym mhle i wneud arbedion, mae'r Cyngor wedi gweithredu mewn modd adeiladol ac wedi gwella'r trefniadau ar gyfer monitro ei gyllideb. Mae wedi datblygu cynlluniau arbedion manwl i'w helpu i lunio cyllideb fantoledig ar gyfer 2015-16. Bu'r cynigion yn destun ymgynghori eang rhwng aelodau, swyddogion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Gwnaed trefniadau monitro ac adrodd manwl yn ogystal, ac mae'r rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn 2015-16, i gynorthwyo gyda chyflawni'r arbedion a gynlluniwyd.

63 Yn dilyn yr ymarferiad o gysylltu â'r cyhoedd ynghylch gosod y gyllideb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar 27 o'r syniadau a gynigiwyd gan y cyhoedd yn ystod yr ymarferiad. Mae mabwysiadu syniadau a gynhyrchwyd gan y cyhoedd ar y lefel hon yn gam cadarnhaol iawn, ac yn enghraifft o ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd, gan Gyngor sydd hefyd yn barod i wrando.

64 Hyd yma yn y broses o osod cyllideb, bu'r pwyslais ar ganfod arbedion posibl mewn meysydd gwasanaeth unigol. Er bod y gwasanethau mewn sefyllfa dda i wneud hynny, gwelsom mai cyfyngedig iawn oedd cyfraniad swyddogaethau canolog y Cyngor, megis cyllid a chaffael, ac na ddarperir cymorth corfforaethol ac eithrio pan ofynnir amdano. Oni fydd y Cyngor yn mabwysiadu dull 'holistig', gan fanteisio ar sgiliau ehangach o fewn y Cyngor, bydd yn anos mynd i'r afael â'r bwlch yn y cyllid.

65 Mae'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i ddiogelu rhag gwyriadau oddi wrth y Cynllun Ariannol Canoldymor yn y dyfodol, yn gyfyngedig iawn. Mae'r Cyngor wedi pennu lefel ddarbodus isaf ar gyfer y cronfeydd cyffredinol wrth gefn, y gobeithir ei chynnal rhwng 4 a 6 y cant o'r gyllideb net. Roedd lefel derfynol y cronfeydd cyffredinol defnyddiadwy wrth gefn, sef £7.1 miliwn ar 31 Mawrth 2015 yn ôl datganiadau ariannol anarchwiliedig 2014-15, yn cynrychioli 4.8 y cant o'r gyllideb net. Felly, os yw'r Cyngor am gynnal y cronfeydd uwchlaw 4 y cant, bydd ei allu i ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn i'w helpu i bontio'r bwlch cyllidol yn gyfyngedig iawn. Roedd balans terfynol y cronfeydd neilltuedig wrth gefn ar 31 Mawrth 2015 oddeutu £10.9 miliwn, yn ôl y cyfrifon anarchwiliedig. Bwriedir gwneud defnydd pellach o'r cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo cyllideb 2015-16, drwy ddefnyddio £1.65 miliwn o'r cronfeydd neilltuedig a £40,000 o'r cronfeydd cyffredinol. Fodd bynnag, digwyddodd gwelliant o tua £330,000 yn sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn ystod 2014-15, oherwydd gwarged o £31,000 gyferbyn â'r gyllideb, a £296,000 y oeddid wedi bwriadu ei ddefnyddio o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn, ond nad oedd ei angen.

66 Ar yr adeg y gwnaed ein gwaith maes Asesiad Corfforaethol, nid oedd gan y Cyngor Strategaeth Gynhyrchu Incwm i bennu ei bolisi ynglŷn â chynyddu ffioedd a thaliadau, er bod polisi o'r fath bellach wedi ei gymeradwyo ym mis Hydref 2015. Heb bolisi eglur, gallai'r gwasanaethau weithredu dull anghyson wrth osod ffioedd a chodi tâl, ac ni allai'r Cyngor fod wedi defnyddio'r ffioedd a'r taliadau fel trosol effeithiol i'w helpu i gyflawni'r blaenoriaethau strategol.

67 Ar 27 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Roedd y llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a'i gyfrifoldebau o ran adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu y Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol a thrafodiadau'r Cyngor. Cynhwysir y Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 4 i'r adroddiad hwn.

68 Yng ngoleuni'r heriau y mae'r cynghorau yn parhau i'w hwynebu oherwydd y gostyngiad yn eu cyllid, bu Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiadau lleol a chenedlaethol, i asesu pa mor ariannol-wydn yw'r awdurdodau, drwy adolygu eu hiechyd ariannol a'r modd y maent yn cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion sy'n ofynnol. Mewn perthynas â Sir Fynwy, daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor, yn gyffredinol, drefniadau rheolaeth ariannol digonol, ond fod rhai gwendidau a allai effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gynlluniau ariannol.

69 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- er bod gan y Cyngor hanes blaenorol da o weithredu o fewn ei gyllideb, ni allai ddangos bod targedau arbedion unigol y blynyddoedd blaenorol wedi eu cyrraedd, oherwydd gwendidau penodol yn y trefniadau monitro cyllideb; ac
- er bod y Cyngor wedi cyflwyno cynlluniau a threfniadau ar gyfer gwneud arbedion, roedd angen rhoi sylw i rai gwendidau er mwyn sicrhau y cyflawnir yr arbedion y bydd angen iddo'u gwneud.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad, ond er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau dynol, fodd bynnag, dylai'r Strategaeth hon fod wedi ei seilio ar gynllunio'r gweithlu ledled y sefydliad, ac ar weithredu proses gyflawn o arfarnu, drwy'r Cyngor cyfan

### Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad, ond mae bylchau'n parhau yn ei arfogaeth strategol ar gyfer rheoli'r gweithlu yn effeithiol

70 Mae Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad y Cyngor yn datgan yn eglur uchelgais y Cyngor ar gyfer ei staff. Dywedir mai bwriad trosfwaol y strategaeth yw 'cysylltu pobl â phwrpas' a dywedir ymhellach y bydd y strategaeth yn 'cysylltu ein pobl â'i gilydd, â phwrpas ac â'r adnoddau sydd ar gael, er mwyn sbarduno arloesi a pherfformiad' ac y 'dylai hyn olygu y bydd ein buddsoddiad mewn gweithgarwch datblygu pobl yn gyson â'n diben creiddiol fel sefydliad, sef cyflenwi cymunedau cynaliadwy a gwydn'. Fodd bynnag, gellid datblygu'r strategaeth hon ymhellach er mwyn dangos sut y bydd 'siâp' sefydliadol y Cyngor yn newid o'r hyn ydyw yn awr i'w gyflwr yn y dyfodol, a sut olwg fydd arno, yn gweithredu gyda llai o gyllid a llai o bobl.

71 Mae cynllun gweithredu Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad y Cyngor yn cynnwys manylion sut yr eir ati i gyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol. Mae'n cynnwys camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu staff, gwirfoddolwyr a phrentisiaid, ynghyd ag eraill sy'n ymwneud â gwerthuso gweithgareddau a ymgymerwyd yn flaenorol. Oherwydd nad yw effaith y mesurau cyni ar gyflenwi gwasanaethau eto wedi ei hasesu, nid yw'n eglur, o ddarllen y cynllun gweithredu, sut y mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu a siapio ei strwythur a threfnu ei swyddogaethau yn y dyfodol. Nid yw'r Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad yn cynnwys dolenni i strategaethau allweddol eraill a fydd yn effeithio ar siâp a maint y gweithlu.

### Nid oes cynllunio gweithlu integredig yn digwydd ledled y Cyngor cyfan, a gallai hynny rhwystro'r Cyngor rhag cyflawni ei flaenoriaethau strategol

72 Nid yw'r Cynlluniau Gwella Gweithlu, fel rhan o'r drefn arferol, yn cynnwys manylion am gynllunio gweithlu'r dyfodol. Mae tystiolaeth bod cynllunio gweithlu yn digwydd mewn rhai meysydd gwasanaeth, er enghraifft, yn y gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, ond ni wneir hynny yn gyson, nac ar sail y Cyngor cyfan, er mwyn cysylltu'r gofynion gweithlu ag amcanion sefydliadol, cynlluniau ariannol a chyflenwi gwasanaethau.

73 Bydd paratoi cynllun gweithlu ar gyfer y Cyngor cyfan yn gymorth i gynllunio'n strategol drwy nodi cyfleoedd i adleoli ac ail-hyfforddi pobl, a rhoi cyfle i gynllunio mewn ffordd fwy cydlynol ar draws meysydd gwasanaeth neu adrannau. Heb gynllun ar gyfer y sefydliad cyfan, mae perygl y byddai newidiadau yn y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn un maes yn cael effaith annisgwyl neu anfwriadol ar wasanaethau eraill. Byddai hefyd yn anos i'r timau rheoli ymdopi â newidiadau yn y gweithlu, a sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau staff er mwyn cyflawni ei amcanion.

## Nid yw polisïau a chynlluniau Adnoddau Dynol y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gapasiti a galluoedd y staff

74 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ei broses arfarnu ddiwygiedig, 'Check in Check Out'. Diben honedig y broses hon yw 'galluogi'r staff i wybod beth a ddisgwylir ganddynt, cytuno ar sut y mae gwerthoedd ac ymddygiadau yn cysylltu â'r modd y mae staff yn perfformio yn eu gwaith, a sicrhau bod ein holl waith yn cysylltu â phwrpas ehangach Cyngor Sir Fynwy'.

75 Nid yw'n ymddangos bod gan y staff, y rheolwyr na'r aelodau ddealltwriaeth eglur o bwrpas 'Check in Check Out'. Disgrifiwyd 'Check in Check Out' gan rai o'r staff fel proses i gynhyrchu syniadau arloesol am fentrau i arbed costau. Nid oedd rhai rheolwyr yn gwybod am y targed a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau arfarniadau, na'r data cyfredol ynglŷn â lefelau salwch, ac nid oedd rhai aelodau yn gwybod dim o gwbl am 'Check in Check Out'. Mae canllawiau ar 'Check in Check Out' yn cael eu hadolygu gan y Cyngor yng ngoleuni'r anawsterau sydd wedi codi er pan lansiwyd y broses. Mae hyn yn dynodi nad yw'r broses arfarnu 'Check in Check Out' wedi ei hesbonio na'i chyflawni yn dda.

76 Nid yw 'Check in Check Out' yn pwysleisio'r anghenion hyfforddiant yn ddigonol, er mwyn galluogi'r Cyngor i ddatblygu cynllun hyfforddi corfforaethol sy'n gydlynol a chydgysylltiedig. O ganlyniad, ni all y Cyngor fod yn sicr bod yr holl hyfforddiant yn diwallu anghenion y sefydliad, bod yr holl fylchau sgiliau yn cael sylw, nac ychwaith fod yr adnoddau hyfforddi yn gyffredinol yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

## Nid yw'r gwaith o reoli pobl yn cael ei gynorthwyo'n ddigonol gan Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), nac yn cael ei reoli'n strategol

77 Nid yw'r system TG 'People Services', a ddarperir drwy gwmni allanol, yn gwbl addas i'w diben, gan ei bod yn llesteirio'r gwaith o gasglu ac adrodd gwybodaeth allweddol yn gywir am y gweithlu. Mae'r data gweithlu a'r ystadegau a ddarperir o'r system yn annigonol. Er enghraifft, adroddwyd yn anghywir fod nifer y diwrnodau salwch a gollwyd am bob Cyfwerth Amser Llawn (CALl) yn y Cyngor yn 11 diwrnod am bob CALl. Esboniodd y Cyngor mai'r ffigur cywir yw 9.89 diwrnod am bob CALl. Darparwr y system hon oedd yn gyfrifol hefyd am oedi am 4 i 6 wythnos tra'n rhoi ar waith swyddogaeth hunan-wasanaeth ar gyfer rheolwyr. Mae hyn yn dynodi bod y Cyngor yn cael darpariaeth wael o ddata gweithlu, sy'n gwneud yn ofynnol defnyddio adnoddau'r Cyngor ei hunan i gywiro'r diffygion.

78 Nid yw'r aelodau a'r uwch-reolwyr o fewn y Cyngor yn cael data sy'n ddigon manwl gywir i'w helpu i reoli'r gweithlu yn effeithiol. Mae'r methiant hwn i gasglu a chynnal data cywir am broffil y gweithlu, ac ystadegau am ystod o ddangosyddion gweithlu allweddol, ac i adrodd amdanynt yn rheolaidd wrth yr Uwch-reolwyr a'r Arweinyddiaeth, yn llesteirio rheoli a chraffu effeithiol.

## Mae'r Cyngor wedi cydnabod na fydd y gwasanaeth a'r model adnoddau dynol yn rhoi cymorth effeithiol i wasanaethau'r Cyngor i gyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd

79 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella'r cymorth a ddarperir i reolwyr gan Adnoddau Dynol. Lleolir swyddogaeth Gwasanaethau Pobl y Cyngor yn y Gyfarwyddiaeth Fasnachol a Datblygu Pobl. Yn ei Chynllun Gwella Gwasanaeth datgenir bod angen i'r Gwasanaethau Pobl 'ddeall eu gwasanaeth, y pwysau sydd ar y gwasanaeth, a pharhau'n ymwybodol mai'r gwasanaeth yw'r cwsmer, a'i fod weithiau'n teimlo bod y Gwasanaethu Pobl yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfleu mai'r Gwasanaethau Pobl yw'r cwsmer, a bod gormod o gylchoedd i neidio trwyddynt cyn y gall gyflawni'r hyn y mae angen ei gyflawni ar gyfer ei faes gwasanaeth'. Mae hyn yn dynodi bod rheolwyr yn cydnabod y gwendidau ac yn gweithio i'w datrys.

80 Mae'r tîm Gwasanaethau Pobl yn cydnabod bod ei ddarpariaeth o wasanaeth ar draws y Cyngor yn anghyson. Gwnaed ymgais yn ddiweddar i ailstrwythuro a sefydlu 'yr un staff, yr un cymorth, yr un gyfarwyddiaeth'. Mae rhai gwasanaethau yn fodlon ar y cymorth a gânt gan y Gwasanaethau Pobl, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn cyrraedd safon addas a chyson ledled y Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi sefydlu mesurau ar gyfer ymgysylltu â'r staff, ond mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r mesurau hyn yn cael effaith

81 Nod y Cyngor yn ei Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad yw 'cysylltu ei bobl â'i gilydd, â phwrpas, ac â'r adnoddau sydd ar gael'. Er bod y staff yn croesawu'r arfer o ddefnyddio technoleg fodern i gyfathrebu â'r staff, roedd rhai o'r staff, nad oeddent wedi eu cysylltu, yn teimlo eu bod 'y tu allan i'r cylch' pan gyfathrebid ac ymgysylltid ynghylch penderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt hwy.

82 Mae'r ymdeimlad hwn o fod allan o gysylltiad yn fwy amlwg ymhlith staff nad ydynt yn gweithio allan o Fagwyr neu Frynbuga, neu pan nad yw defnyddio technoleg gwybodaeth yn rhan o'u rôl, pan neu nad yw ar gael yn eu lleoliad gwaith. Rhoddwyd sylw i'r materion hyn yng Nghynhadledd Staff y Cyngor ym mis Tachwedd 2014, ac mae'r Cyngor yn y cyfamser wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r pryderon. Sefydlwyd fforwm staff o'r enw 'Monmouthshire Minds' sy'n cynnal arolwg o'r staff; pan gynhaliwyd ein hasesiad corfforaethol, roedd 500 o ymatebion wedi dod i law; trefnir hefyd i uwch-reolwyr ymweld â gwahanol safleoedd i roi diweddariad i'r staff ar y negeseuon allweddol. Mae'r tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi gosod amcan o 'wella'r cyfathrebu er mwyn sicrhau ymdeimlad o berthyn ac o fod yn 'rhan o bethau' drwy ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ar lefel yr awdurdod cyfan'. Mae hyn yn dangos ymrwymiad gan y Cyngor i wella'r dull o gyfathrebu â'r holl staff, ond mae'n rhy gynnar i asesu effaith hyn ar y gweithgareddau a ymgymerir gan y Cyngor.

## Mae gan y Cyngor bolisi strategol eglur ar reoli asedau, ond yn ymarferol, gellid rheoli'r asedau yn fwy effeithiol i gynorthwyo gyda chyflawni'r blaenoriaethau strategol

83 Mae gan y Cyngor bolisi eglur sy'n pennu sut i wneud y defnydd gorau o'i asedau. Mae ei Gynllun Rheoli Asedau yn cysylltu'r defnydd o asedau â chyflawni ei amcanion strategol, gan gynnwys yr angen i dir ac adeiladau'r Cyngor fod yn y lle cywir i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaethau. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn datgan y dylai rheolaeth yr asedau helpu i wella canlyniadau a chyflawni blaenoriaethau, ac mae'n cysylltu rheolaeth asedau â'r Cynllun Integredig Sengl, y Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad a'r Cynllun Ariannol Canoldymor. Er bod y Cynllun Rheoli Asedau yn cynnwys rhai enghreifftiau o effaith ac yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig y gostyngiad tebygol yn nifer yr awdurdodau lleol o ganlyniad i ddiwygio'r sector cyhoeddus, nid yw'r Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad yn cyfeirio, yn ei thro, at y Cynllun Rheoli Asedau. Yn ychwanegol, nid yw'r Cynllun Ariannol Canoldymor yn adlewyrchu'r ffordd orau o ddefnyddio asedau ar gyfer cyflawni canlyniadau, ac nid oes tystiolaeth o ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio ei asedau.

84 Mae'r Cyngor wedi sefydlu strwythurau eglur i gynorthwyo rheoli ei asedau. Mae bwrdd adan arweiniad aelod yn goruchwylio holl brosiectau adfywio a phrosiectau ased y Cyngor, a gweithgor o swyddogion yn monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli Asedau. Annigonol, fodd bynnag, yw'r broses ar gyfer trosi polisïau'r Cynllun Rheoli Asedau yn gamau gweithredol. Nid yw canllawiau cynllunio gwasanaethau y Cyngor yn cyfeirio at reoli asedau, ac nid yw'r Cynlluniau Gwella Gwasanaeth yn nodi sut y mae gwasanaethau yn bwriadu defnyddio asedau i wella'r canlyniadau i'w cwsmeriaid a/neu gynyddu effeithlonrwydd y gwasanaethau.

85 Mae gan y Cyngor fframwaith eglur ar gyfer rheoli perfformiad ei asedau, ond nid yw'n gyfan-gwbl effeithiol. Mae gan y Cyngor brosesau i sicrhau y cedwir ei asedau mewn cyflwr da, gan gynnwys rhaglenni cynnal cynlluniedig a chylchol, a chedwir data am ei asedau mewn tirlyfr ar ffurf cronfa ddata. Cynhwysir dangosyddion perfformiad a gysylltir ag amcanion strategol y Cyngor yn y Cynllun Rheoli Asedau, ond meintiol yn bennaf yw'r rhain, ac nid adroddir arnynt fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor.

## Mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau Technoleg Gwybodaeth er mwyn cynorthwyo ei weledigaeth strategol ond mae angen gwneud rhagor o waith

86 Mae gan y Cyngor strategaeth ar gyfer defnyddio technoleg, ond nid yw'n dangos maint y gwelliant cynlluniedig sydd ei angen i arddangos llwyddiant. Mae'r Strategaeth Ddigidol ('iCounty') yn pennu i ba gyfeiriad yn gyffredinol y bydd y Cyngor yn symud ynglŷn â TG a thechnoleg ddigidol, ynghyd â chanlyniadau mesuradwy. Er mwyn arddangos bod nodau'r strategaeth wedi eu cyrraedd ac er mwyn monitro cynnydd, dylai'r Cyngor osod targedau penodol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau hyn.

87 Mae'r rhaglen TGCh yn cael ei goruchwylio'n briodol gan Aelodau a swyddogion. Mae'r Bwrdd Digidol yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio'r modd y gweithredir y Strategaeth iCounty. Gall y Bwrdd gynghori ond nid oes ganddo bwerau i wneud penderfyniadau. Aelodaeth y Bwrdd yw dau Aelod Cabinet, cynrychiolwyr o CMC2 (Cwmni Buddiannau Cymunedol ym mherchnogaeth y Cyngor) a'r Gwasanaethau Adnoddau a Rennir (SRS), a swyddogion y Cyngor. Mae'r Bwrdd digidol yn adrodd wrth y Cabinet yn rheolaidd.

88 Mae gan y Cyngor strwythur priodol i oruchwylio'r modd y cyflenwir TGCh. Goruchwylir materion gweithredol o ddydd i ddydd gan y Tîm Newid Busnes TGCh. Mae'r tîm hwn yn cynnwys rheolwyr o SRS, partneriaid busnes a chyfarwyddiaethau'r Cyngor. Pwrpas strategol y Tîm Newid Busnes TGCh yw helpu'r Cyngor, SRS a phartneriaid i gyfathrebu ynghylch, cyflenwi, datblygu a chydgysylltu eu systemau TGCh mewn da bryd, tra'n osgoi dyblygu gwaith. Mae gan y Tîm ddwy brif swyddogaeth weithredol. Mae'n ceisio datrys unrhyw broblemau yr adroddir amdanynt, ac yn hidlo cynigion ar gyfer gwelliannau, gan asesu a ellir eu datblygu o fewn y cynhyrchion neu'r prosesau sy'n bodoli.

89 Cymysg yw'r boddhad a deimlir ledled y Cyngor gyda'r gwasanaethau TG. Roedd rhai rheolwyr adrannol yn mynegi pryderon, gan gyfeirio'n benodol at ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â blaenoriaethu ymatebion i ddiffygion caledwedd a meddalwedd, yn ogystal â phryderon ynghylch y systemau TG Adnoddau Dynol, y cyfeiriwyd atynt uchod. Cafwyd yr adborth hwn drwy grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys nifer fach o staff, yn cynrychioli croestoriad o'r Cyngor. Fodd bynnag, cawsom adborth cadarnhaol gan rai uwch-swyddogion ac aelodau.

90 Mae gan y Cyngor brosesau wedi eu sefydlu i reoli risgiau TG, ond mae gwendidau yn y modd yr adroddir am risgiau TG wrth y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Er bod rhai risgiau TG lefel uchel iawn wedi eu cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ni chynhwysir y risgiau sy'n ymwneud â newid system TG y Gwasanethau Cymdeithasol. Mae'n wir bod cofrestr risgiau sy'n benodol i'r prosiect, ond mae rhai risgiau allweddol sydd heb eu hystyried. Mae prosiect system TG y Gwasanethau Cymdeithasol yn cynnwys risgiau sylweddol megis cyfrinachedd gwybodaeth, datblygu'r prosiect gan gwmni allanol (CMC2) sydd heb hanes blaenorol o ddatblygu systemau cymhleth o'r fath, a'r gofyniad am newidiadau sylweddol yn yr arferion gwaith. Yn ogystal, mae ansicrwydd ynghylch dyfodol CMC2 fel datblygwr meddalwedd, a hynny'n tanlinellu risgiau posibl ynglŷn â chefnogaeth barhaus i'r system gymhleth a chritigol hon. Oni fydd risgiau fel y rhain wedi eu dogfennu'n eglur, eu graddio a'u lliniaru, bydd y Cyngor yn rhoi ei hunan o dan risg o ganlyniad i'w ddull o drin datblygiadau TG.

91 Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei wasanaethau TGCh, ac yn cael adborth rheolaidd gan SRS mewn 'dangosfyrddau perfformiad'. Mae'n aros am ganlyniadau prawf marchnad a gwerth am arian gan y Gymdeithas Rheolaeth Technoleg Gwybodaeth (SOCITM).

## Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau Rheoli Gwybodaeth digonol, ond yn cydnabod, ac wedi dechrau mynd i'r afael â, rhai gwendidau

92 Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau digonol i reoli gwybodaeth yn ddiogel, er bod un toriad diogelwch bach wedi digwydd yn ystod 2014. Mae'r trefniadau mewnol yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys polisïau ynglŷn â chadw a gwaredu, grŵp llywodraethu gwybodaeth, rheolwr gwybodaeth a swyddog Diogelu Data/Rhyddid Gwybodaeth. Un o'r uwch-reolwyr yw'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth penodedig, a gall y Cyngor, drwy un o'i gontractau TG, fanteisio ar wasanaeth cymorth diogelwch gwybodaeth. Roedd yr un digwyddiad yn 2014 yn cynnwys datgelu manylion banc yn ddamweiniol. Mae'n ymddangos bod y mater hwnnw wedi ei ddatrys yn gyflym, a gwersi priodol wedi eu dysgu.

93 O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen cryfhau rheolaeth diogelwch gwybodaeth, ac wedi cymryd camau priodol. Cynhaliodd weithgaredd pellach i godi ymwybyddiaeth y staff sy'n paratoi adroddiadau. Bydd llywodraethu gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant ymsefydlu a disgwylir i bob rheolwr ddilyn hyfforddiant gorfodol mewn diogelu data. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu set ddiwygiedig o ganllawiau ar gyfer ysgrifenwyr adroddiadau pwyllgor, sy'n amlinellu'r disgwyliadau ac yn rhoi arweiniad ar fformat a chynnwys yr adroddiadau. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i adolygu a gwella'r trefniadau.

# Cydweithio a phartneriaethau

## Ar gyfer 2013-14 a 2014-15, roedd y Cyngor yn eglur ynghylch yr hyn yr oedd yn ceisio’i gyflawni, a gall ddangos bod ei berfformiad yn symud i gyfeiriad cadarnhaol, ond oherwydd cyfyngiadau mewn rhai o’i drefniadau, nid yw’n llwyddo bob amser i arddangos effaith hynny, nac i feintioli’r gwelliant yn y canlyniadau

### Mae’r Cyngor yn ymroi’n rhagweithiol i gydweithio gydag ystod o randdeiliaid a phartneriaid, ac y gwella atebolrwydd a threfniadau craffu

94 Mae’r Cyngor yn ymroi’n egnïol i gydweithio wrth ddarparu gwasanaethau, ac yn cydnabod, o ystyried yr hinsawdd ariannol gyfredol a’r hyn y tybia’r Cyngor yw’r ‘cyfalaf cymdeithasol’ (sef adnoddau a sgiliau cymunedol) o fewn y sir, mai cydweithio â phartneriaid yw’r allwedd i gynnal y gwasanaethau. Mae’r Cyngor yn chwilio’n gyson am gyfleoedd i gydweithio, a’r sefydliadau partner yn gwerthfawrogi ei barodrwydd i weithredu ac i ganfod atebion ar y cyd. Nid yw agwedd y Cyngor at weithio mewn partneriaeth wedi ei dogfennu nac yn rhan o strategaeth gyffredinol; mae’n ‘optimistaidd’ yn hytrach na strategol. Enghraifft ddiweddar o hyn yw’r cwmni buddiannau cymunedol CMC2, y parheir i ail-ddiffinio ei bwrpas wrth i gyfleoedd ddod i’r amlwg neu wrth i fentrau blaenorol fethu. Er mor gadarnhaol yw manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd, mae’r dull yn peri nad yw’n eglur bob amser a yw’r Cyngor yn cael yr hyn sydd arno ei angen ai peidio, o weithio mewn partneriaeth i sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion. Byddai dull mwy cynlluniedig, a asesid ar gyfer risg, yn gwneud gwell defnydd o’r adnoddau ac yn rheoli’r posibilrwydd o ddyblygu ymdrech.

95 Mae’r Cyngor yn cydweithio mewn nifer o wahanol ffyrdd, ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â chynghorau cyfagos i gyflenwi Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor, TGCh a’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae’r cynllun ‘y Prentis’ ar y cyd â Chartrefi Melin yn darparu prentisiaethau, a’r prosiect ‘Mewn Un Lle’ wedi dwyn ynghyd gyrff iechyd, cymdeithasau tai a chynghorau cyfagos i ddarparu tai ynghyd â gofal ychwanegol. Cynhelir trafodaethau ar hyn o bryd gyda Heddlu Gwent i ymchwilio i’r posibilrwydd o rannu cyfleusterau, a chyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i rannu data am bobl sy’n wynebu risg o dân. Mae prosiectau cydgysylltu cymunedau y Cyngor yn y Fenni a Chil-y-coed yn enghreifftiau positif o gydweithio ag unigolion yn y maes Iechyd i ddarparu cymorth yn lleol i bobl hyglwyf.

96 Mae AGGCC yn cydnabod bod y Cyngor yn cydweithio'n dda gyda phartneriaid i ddarparu cymorth, gofal a diogelwch, ac yn dangos lefel uchel o frwdfrydedd ac ymroddiad i rianta corfforaethol.

97 Mae parodrwydd i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, er enghraifft trwy Gwmnïau Buddiannau Cymunedol. Mae Cwmnïau Buddiannau Cymunedol yn ddarostyngedig i wiriadau llywodraethu gan reoleiddiwr allanol ac yn ffordd fuddiol, ym marn y Cyngor, o ymgysylltu â busnesau lleol ac o annog dinasyddion i gyfranogi. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos dinasyddion na fyddent, hwyrach, yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor. Mae dau Gwmni Buddiannau Cymunedol; sefydlwyd un – CMC2 – gan y Cyngor, ac un, sef Tîm Tref Cil-y-Coed (sy'n cyfrannu at gyflawni'r cynllun 'Seven for Severnside') gan grŵp cymunedol ar ei liwt ei hunan. Mae'r weledigaeth a'r cynllun busnes ar gyfer CMC2 yn aneglur, ac wedi newid nifer o weithiau ers sefydlu'r cwmni. Er ei fod yn eiddo i'r Cyngor yn gyfan gwbl, cyfyngedig yw'r wybodaeth am y modd y mae CMC2 yn gweithredu, ac mae'n anodd i'r aelodau gael sicrwydd bod CMC2 yn cyflenwi fel y bwriedid.

98 Mae'r trefniadau ar gyfer dal partneriaid yn gyfrifol a chraffu ar eu gweithgareddau yn gwella, ond yn parhau'n her oherwydd y nifer o bartneriaid a sianelau cyflenwi a ddefnyddir. Yn ogystal, mae'r diffyg eglurder ynglŷn â nodau'r prosiectau cydweithredu a'r gwelliannau mesuradwy a ddisgwylir ganddynt yn ei gwneud yn anos dal partneriaid yn gyfrifol. Cawsom fod y Cyngor yn cael trafferth weithiau i fynegi'n eglur beth y mae'n ceisio ei gyflawni, ac o ganlyniad, fod dealltwriaeth pobl yn amrywio.

99 Mae cryfhau'r dull o adrodd am ganlyniadau, a'r cyswllt rheolaidd, yn peri bod y Cyngor mewn gwell sefyllfa i fonitro pa mor dda y mae'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) yn cyflenwi'r canlyniadau a gytunwyd; ac mae rhai aelodau'n gobeithio y bydd Pwyllgor Archwilio'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn herio ymhellach yr agweddau ar berfformiad y cwmni sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol.

100 Mae'r Cyngor yn arbennig o awyddus i gynnwys grwpiau cymunedol lleol yn y gwaith o ddarparu a siapio gwasanaethau, a'r allwedd i gyflawni hyn yw'r Strategaeth Lle Cyfan. Chwilir am gyfleoedd newydd yn gyson, megis Prosiect Ardal Gwella Busnes y Fenni.

101 Roedd y gwerthusiad diweddar o'r Strategaeth Lle Cyfan (yr adroddwyd arno wrth y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryfach ar 30 Ionawr 2015) yn:

- cydnabod y brwdfrydedd ymhlith swyddogion a dinasyddion o blaid y dull, a'r nodweddion cadarnhaol y gellid adeiladu arnynt ar gyfer y tymor hir;
- adrodd ar y cynnydd a wnaed gyferbyn â chynigion ar gyfer gwella a godwyd yn flaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- cydnabod y gall yn nifer cynyddol o grwpiau a phartneriaid sy'n dod o fewn Lle Cyfan beri dryswch ynglŷn â rolau, cyfrifoldebau, adrodd ac atebolrwydd, a gwneud yn anodd dangos yn eglur sut y mae gweithredoedd gan y gwahanol grwpiau yn cyfrannu at gyflenwi dyheadau'r Cyngor; a

- chytuno i wneud yr agweddau hyn yn fwy eglur yn y dyfodol drwy gynnal adolygiad o Lywodraethu Cymunedol, y disgwylir ei gwblhau yn fuan.

102 Ar ôl ei ail-lansio yn 2012 mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi bod yn darparu fforwm i ddwyn at ei gilydd bartneriaid, o'r sector cyhoeddus yn bennaf, sy'n gyfrifol am wasanaethau yn Sir Fynwy. Mae cylch gorchwyl diwygiedig wedi ei gytuno, ond nid yw ar gael ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'r is-grwpiau blaenorol hefyd wedi eu symleiddio, ond eto, nid oedd modd dod o hyd iddynt ar y wefan. Cefnogir y Bwrdd Gwasanaethau Lleol bellach gan Fwrdd Rhaglen a thri grŵp gweithredol – Grŵp Asesu Anghenion Gwent, y Grŵp Ymgysylltu a Chyfranogi a'r grŵp newydd, sef Grŵp Perfformiad y Cynllun Integredig Sengl – a chyfarfu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol am y tro cyntaf ym Medi 2014. Mae ei weithgarwch hyd yma wedi canolbwyntio ar bennu llwybr y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y dyfodol, a sicrhau ei fod yn deall anghenion y gymuned. Mae'r aelodau'n teimlo bod ganddynt sylfaen gadarn ar gyfer mynd ymlaen â hyn mewn ffordd a fydd yn adlewyrchu eu gwahanol anghenion.

103 Mae'r 'Cynllun Integredig Sengl yn amlinellu rhaglen waith eang ar gyfer 2013-2017 i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r aelod-sefydliadau. Mae cynlluniau cyflenwi penodol sy'n disgrifio pa gamau a gymerir, gan bwy a pha bryd, fel cyfraniad i'r rhaglen waith gyffredinol ar fin eu cwblhau. Mae trefniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys mesurau penodol a sut y cesglir y data gwaelodol (na chesglir cyfran ohonynt ar hyn y bryd), yn cael eu datblygu, ac mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y trefniadau newydd yn eu lle erbyn diwedd y flwyddyn. Y dogfennau a'r trefniadau hyn fydd yr allwedd i sicrhau y gall y Bwrdd Gwasanaethau Lleol nodi'n eglur yr hyn y mae'n bwriadu ei wella, sut y bydd yn gwneud hynny a sut y bydd yn mesur effaith. Dylai'r cynlluniau hefyd ganiatáu gwell monitro cynnydd a chraffu, gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ogystal â'r gwahanol sefydliadau partner. Mae'n fwriad gan y Cyngor sefydlu Panel Craffu a fydd yn herio perfformiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y dyfodol.

104 Dylai canlyniad yr adolygiad Llywodraethu Cymunedol, cwblhau'r cynlluniau cyflenwi manwl (yn enwedig ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Lle Cyfan) a chryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad ac atebolrwydd, ynghyd â rhagolwg hyblyg, alluogi'r Cyngor i feithrin cydnerthedd a rheoli ei weithgarwch partneriaeth mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy.

105 Defnyddir rhywfaint ar gyllidebau cyfunedig, ac mae partneriaid yn cydnabod bod rhannu cyfleusterau, sgiliau a gwybodaeth yr un mor bwysig. Bydd canfod ffyrdd i gynnwys aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fwyfwy yn y broses o osod cyllideb y Cyngor, a gosod mwy o gyllidebau cydweithiol a chyfunedig pan fo'n briodol, yn helpu i gyflenwi canlyniadau a rennir.

106 Er gwaethaf hyn, mae nifer o gynlluniau partneriaeth sydd â'u cyfeiriad a'u gweithrediad yn y dyfodol o dan ystyriaeth, yn rhannol yng ngoleuni cyfyngiadau cyllidol. Mae'r rhain yn cynnwys Y Prentis ac CMC2 (datblygiadau TGCh yn y dyfodol).

## Nid oedd gweledigaeth strategol ar gyfer y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir wedi ei sefydlu ar ei ddechreuad, ac mae hynny wedi cyfrannu at y gwendidau yn y modd y cafodd y gwasanaeth a ymddangosodd ei reoli a'i lywodraethu. Mae'r partneriaid wedi cydnabod yr anawsterau hyn ac yn rhoi sylw iddynt fel rhan o adolygiad strategol mewnol

107 Cydweithrediad yw'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS), rhwng y Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen ac Awdurdod Heddlu Gwent (Heddlu Gwent, bellach), i ddarparu gwasanaethau TG a rennir i'r tri sefydliad. Darperir gwasanaethau Llety Canolfan Ddata i gyrff cyhoeddus eraill, megis Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, fel rhan o'r Ganolfan Adnoddau a Rennir a leolir ym Mlaenafon yng ngogledd Tor-faen.

108 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb i'r cwestiwn: A oedd y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir wedi ei sefydlu yn briodol, ac a oedd yn cael ei reoli a'i lywodraethu yn effeithiol gan ei bartneriaid? Daethom i'r casgliad nad oedd gweledigaeth strategol ar gyfer SRS wedi ei sefydlu yn ffurfiol ar y dechrau a bod hynny wedi cyfrannu at y gwendidau yn y modd y cafodd y gwasanaeth a ymddangosodd ei reoli a'i lywodraethu. Mae'r partneriaid wedi cydnabod yr anawsterau hyn ac yn rhoi sylw iddynt fel rhan o adolygiad strategol mewnol.

109 Er bod y rhesymeg dros ddatblygu SRS yn eglur, wrth iddo esblygu dros amser gwelwyd bod rhai gwendidau yn y ffordd y'i sefydlwyd. Nid oedd Cyngor Sir Fynwy yn un o'r partneriaid a sefydlodd SRS. Gwnaed y penderfyniad terfynol i sefydlu SRS gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, a chymeradwywyd hynny gan yr Aelodau heb i'r penderfyniad gael ei ategu'n llawn gan achos busnes digon manwl. Roedd penderfyniad Cyngor Sir Fynwy a Heddlu Gwent i ymuno ag SRS wedi ei ategu gan wybodaeth briodol, er bod rhai bylchau ynghylch y goblygiadau tebygol o ran cost. Mae memorandwm dealltwriaeth a chytundeb wedi eu llunio, sy'n pennu'n eglur y modd y cyfansoddwyd SRS, ac mae'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir bellach yn darparu rhai buddion i bob un o'r partneriaid, ond roedd y cynlluniau gwreiddiol yn rhy optimistaidd ar sawl cyfrif.

110 Mae adolygiad strategol wedi ei gwblhau, sy'n rhoi sylw i'r gwendidau a nodwyd o ran rheoli perfformiad, goruchwylio a chraffu. Er nad oedd Cyngor Sir Fynwy yn un o sefydlwyr SRS, er pan ymunodd ag SRS yn 2011 mae canfyddiadau'r adolygiad yn berthnasol i'w rôl yn y bartneriaeth. Cymysg fu effeithiolrwydd Bwrdd SRS o ran goruchwylio rheolaeth a datblygiad SRS. Mae rhai o'r gwendidau gwreiddiol ynglŷn â chraffu a goruchwylio SRS wedi cael sylw, ond mae angen gwneud rhagor o waith. Mae trefniadau cadarn wedi eu sefydlu i reoli'r gyllideb, ond mae angen i SRS wneud rhagor o waith i ddangos ei fod yn cyflenwi gwerth am arian.

# Rheoli gwelliant

## Er bod systemau, gweithdrefnau a chanllawiau wedi eu sefydlu, nid yw'r Cyngor yn rheoli perfformiad, gwelliant a risgiau yn gyson

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur Llywodraeth Leol, ond mae angen gwneud rhagor i gryfhau'r trefniadau cymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwelliannau cadarn ac effeithiol

111 Roedd Cynllun Gwella 2014-17 y Cyngor yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ond gwelsom fod ynddo rai cyfleoedd i wella. Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i'n hadborth ar ei Gynllun Gwella 2014-17, a cheisiodd roi sylw i'n sylwadau wrth lunio ei Gynllun Gwella 2015-17. Mae adolygiad o'r Cynllun Gwella drafft 2015-17 yn nodi gwelliannau yn y modd y gosodir targedau, a gwell dolenni cyswllt rhwng gweithredoedd a mesurau. Cytunwyd y Cynllun Gwella drafft ar gyfer 2015-17 gan y Cyngor ar 2013 Ebrill 2015, a chyhoeddwyd ef ar 20 Mai 2015. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad ar y Cynllun Gwell 2015-17 terfynol ac yna'n darparu adborth manylach.

112 Craffwyd yn eang ar Gynllun Gwella 2014-17 cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi. Ystyriwyd y cynllun gwella drafft hwnnw gan y Tîm Uwch-arweinwyr, Pwyllgorau Dethol a'r Cyngor. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i uwch-swyddogion ac aelodau etholedig ystyried a chraffu ar y perfformiad arfaethedig. Ymgynghorwyd â phreswylwyr lleol yn rhan o'r broses o osod cyllideb, ac mae hynny wedi goleuo blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

113 Bu'r Cyngor yn ystyried mandadau cyllideb, y cynllun ariannol canoldymor a'r blaenoriaethau gwleidyddol wrth bennu ei bedwar amcan gwella ar gyfer 2014-17, sef:

- 'Byddwn yn darparu gwell darpariaeth addysg ar gyfer Sir Fynwy'
- 'Byddwn yn gweithio i helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw eu bywydau eu hunain drwy adeiladu gwasanaethau hyblyg ac ymatebol'
- 'Rydym am alluogi ein Sir i ffynnu'
- 'Rydym am fod yn sefydliad effeithlon, effeithiol a chynaliadwy'.

114 Fodd bynnag, nid oedd yr amcanion gwella wedi eu cysylltu bob amser ag adnoddau, oherwydd na ddyrannwyd cyllideb i bob gweithgaredd gwella a gynlluniwyd. Er enghraifft, mae Cynllun Gwella Gwasanaeth 2014-15 ar gyfer Cyflenwi dan Arweiniad y Gymuned yn datgan 'nid oes cyllideb eto wedi ei dyrannu ar gyfer Lle Cyfan'. Mae Lle Cyfan yn cynorthwyo Amcan Gwella 2014-15 y Cyngor, sef 'Rydym am alluogi ein Sir i ffynnu'. O ganlyniad, ni chafodd Cynllun Gwella 2014-17 ddyraniad llawn o adnoddau, ac fel y cyfryw mae'n bosibl na fydd yn cyflenwi'r gwelliannau a gynlluniwyd.

115 Gosododd y Cyngor amcanion gwella eglur ar gyfer 2014-15 a 2015-16, ond bydd angen gwneud rhagor o waith i gynyddu'r dystiolaeth o'u cyflenwi. Mae'r ddau Gynllun Gwella yn nodi'r rhesymeg dros ddewis yr amcanion gwella ynghyd â disgrifiad o bob amcan a dolenni cyswllt i'r Cynllun Integredig Sengl. Mae gan y Cynlluniau Gwella weithredoedd a thargedau sy'n cefnogi'r amcanion, ond er bod cynnydd wedi ei wneud yng Nghynllun 2015-16 o ran pennu targedau, nid oes gan bob un o'r gweithredoedd fesurau a thargedau eglur. Yn ychwanegol, nid yw pob un o'r mesurau yn ymwneud yn eglur â'r Amcanion Gwella a'r gweithredoedd a bennir cyferbyn â phob Amcan. O ganlyniad, ni fydd modd i'r Cyngor arddangos yn llawn a yw'r lefel o welliant a ddisgwylid wedi ei chyrraedd, oherwydd nad yw rhannau o'r trefniadau cynllunio wedi eu llwyr ddatblygu.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn gwella, ac angen eu datblygu ymhellach i gynorthwyo'n llawn y gallu i wneud penderfyniadau a gwelliannau cadarn ac effeithiol

116 Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn gwella. Gwnaed ailstrwythuriad yn 2014 a oedd yn dwyn y staff Polisi a Pherfformiad at ei gilydd mewn tîm corfforaethol, er mwyn cyfuno'u harbenigedd a hyrwyddo dulliau gweithredu cyson ledled y Cyngor. Mae'r cyngor wedi paratoi canllawiau a thempled ar gyfer datblygu a fformatio Cynlluniau Gwella Gwasanaeth, sy'n rhagnodi'n eglur y prosesau a'r amserlenni ar gyfer eu cynhyrchu, eu cyflawni a'u monitro. Ni orfodir pob Cyfarwyddiaeth i ddefnyddio'r templed hwn.

117 Yn 2014, gwnaeth y Cyngor welliant yn ei drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer aelodau. Mae Pwyllgorau Dethol y Cyngor bellach yn cael diweddariadau ar yr amcanion gwella 2014-17 a chytundebau canlyniadau Llywodraeth Cymru, ac yn gofyn am wybodaeth bellach os nad yw'r adroddiadau yn eglur. Mae adroddiadau chwarterol ar 'Effeithiolrwydd Gwasanaethau'r Cyngor' yn cael eu hystyried gan y Cabinet. Mae'r adroddiad yn cynnwys dangosfwrdd perfformiad cabinet sydd hefyd ar gael ar 'Foth y Cyngor', y gall aelodau gael mynediad iddi y tu allan i gyfarfodydd y Cabinet.

118 Mae gan y Cyngor wybodaeth perfformiad ar gael ar y Foth, y gall staff ac aelodau gael mynediad ati yn hwylus. Mae wedi cyflwyno sesiynau Her Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn cynyddu atebolrwydd ac wedi Datblygu Cynlluniau Gwella Gwasanaeth a Chynlluniau Penaethiaid Gwasanaethau sy'n nodi data perfformiad, targedau a risgiau. Mae clinigau perfformiad wedi eu sefydlu i gynorthwyo'r rheolwyr hynny y mae eu gwasanaethau yn tangyflawni. Mae hyn yn arddangos gwelliannau o ran hygyrchedd gwybodaeth a gwell ffocws ar ddal aelodau a rheolwyr yn gyfrifol.

119 Nid yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn nodi sut y mae Cynlluniau Gwasanaeth o fewn Cyfarwyddiaethau yn gorgyffwrdd ac yn cynorthwyo ei gilydd i gyflenwi'r Amcanion Gwella strategol. Mae'r Prif Swyddogion yn paratoi adroddiad cyfarwyddiaeth blynyddol sy'n adfyfyrio ar berfformiad y 12 mis blaenorol ac yn cynnwys camau gweithredu blaenoriaeth 2014-15. Fodd bynnag, nid oes fformat cyson i'r adroddiadau hyn, ac nid oedd yr un o'r adroddiadau yr edrychasom arnynt yn cyfeirio at polisi datblygu cynaliadwy y Cyngor nac at ei ymrwymiad i gynaliadwyedd a wnaed yng Nghynllun Gwella 2014-17.

120 Mae gwendidau yn y modd y gosodir cerrig milltir a thargedau. Bu'r Cyngor yn rhagweithiol yn sefydlu modelau amgen o gyflenwi gwasanaethau; ond nid yw canlyniadau arfaethedig y modelau cyflenwi newydd, megis Cydgysylltu Cymunedau a Lle Cyfan, wedi eu pennu'n eglur bob amser. Pan fônt wedi eu pennu, yn gyffredinol nid yw'r targedau a'r trefniadau casglu data wedi eu datblygu'n ddigonol. Heb bennu'r canlyniadau a fwriedir, ni fydd modd i'r Cyngor wneud penderfyniadau goleuedig a chadarn, olrhain perfformiad, arddangos gwerth am arian, na gwerthuso i ba raddau y mae'r model yn cyflawni'r diben a fwriedir.

121 Yn Rhagfyr 2014, cymeradwyodd y Cabinet newidiadau yn rhai o'r targedau fel y'u pennwyd yng Nghynllun Gwella 2014-17, y Grant Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru a thargedau adrannol. Drwy amryfusedd, ni chafodd y targedau diwygiedig eu hadlewyrchu, pan oedd yn briodol, yn adroddiad perfformiad Chwarter 3 i'r Cabinet. Er enghraifft:

- roedd y targed ar gyfer y ganran o asesiadau dechreuol a gwblhawyd yn y flwyddyn pan fo'r plentyn wedi ei weld ar ei ben ei hunan gan y gweithiwr cymdeithasol wedi ei gamddatgan fel 42.9 y cant, er mai 48 y cant oedd y targed a gytunwyd;
- roedd y targed ar gyfer nifer y swyddi newydd a grëwyd pan ddarparwyd cymorth gan Fenter Sir Fynwy a Phartneriaid wedi ei gamddatgan fel 150, er mai 200 oedd y targed a gytunwyd;
- roedd y targed ar gyfer lefel y cyflog cyfartalog yn y Sir wedi ei gamddatgan fel £454 er mai £465 oedd y targed a gytunwyd; ac
- roedd y targed ar gyfer y ganran o blant a phobl ifanc sydd â chynllun llwybr cyfredol wedi ei gamddatgan fel 90 y cant, er mai 98 y cant oedd y targed a gytunwyd.

Yn adroddiad perfformiad Chwarter pedwar, cywirwyd y rhan fwyaf o'r camgymeriad blaenorol, ar wahân i ddau darged yr adroddwyd arnynt yn anghywir. O ganlyniad i'r camgymeriadau hyn, a barodd i dargedau anghywir gael eu cynnwys yn adroddiadau perfformiad y Cabinet ar gyfer Chwarteri tri a phedwar, data anghywir a gafodd yr aelodau ar gyfer craffu ar ddangosyddion perfformiad allweddol y Cyngor a ffurfio barn ar ei berfformiad.

122 Buom yn edrych ar chwech o fesurau perfformiad y Cyngor ac ar systemau data sy'n eu cynnal. Edrychwyd ar dri o'r dangosyddion strategol cenedlaethol (DSCau) a thri o'r mesurau perfformiad a ddatblygwyd gan y Cyngor ei hunan. Dewiswyd y chwe mesur hyn oherwydd eu bod yn rhan o'r dystiolaeth i ategu cyflenwi Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2014-17. Cawsom fod oedi cyn cofnodi data, diffyg tystiolaeth ategol a defnyddio data a amcangyfrifwyd pan oedd data gwirioneddol yn ofynnol yn codi amheuon ynghylch hygrededd y data a ddarparwyd gan y Cyngor. O ganlyniad, ni all aelodau, na'r cyhoedd yn gyffredinol, deimlo'n sicr fod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir.

123 Mae'r Cyngor wedi datblygu system reoli perfformiad gadarn yn fewnol, i gymryd lle ei system flaenorol, a bydd hon yn cynyddu argaeledd gwybodaeth i aelodau ac i'r staff. Mae'r dangosfwrdd perfformiad yn darparu, ar gyfer pob dangosydd perfformiad: y data gwirioneddol, y data targed, dynodiad o'r cyfeiriad y symudir iddo i hwyluso dehongli, h.y. gwella neu edwino, cymhariaeth CAG (coch, ambr, gwyrdd) o'r gwirioneddol gyferbyn â'r targed a 'siart wreichlin' sy'n dangos tuedd y data perfformiad dros nifer o gyfnodau. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y statws CAG a briodolir i bob dangosydd perfformiad yn dibynnu i raddau helaeth ar i'r Cyngor osod targedau heriol ar gyfer ei ddangosyddion perfformiad.

124 Mae'r foth perfformiad yn fenter a fu'n helpu i gynorthwyo trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, er eu bod yn weithredol, nid yw dyluniad ac adeiledd y cronfeydd data sy'n cyflenwi'r foth wedi eu datblygu'n ddigonol i sicrhau effeithlonrwydd, cywirdeb a chydnerthedd y data.

125 Roedd yr adroddiad ar yr Arolygiad o'r Gwasanaethau Plant a gyhoeddwyd gan AGGCC yn Chwefror 2015 yn tanlinellu bod angen mewnblannu'r trefniadau rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd yn fwy effeithiol, fel bod rheolwyr ar bob lefel yn cael gwybodaeth perfformiad a sicrwydd ansawdd sy'n amserol, perthnasol a chywir i'w galluogi i fod yn fwy effeithiol yn eu rolau ac i gyflenwi gwelliannau.

126 Yn dilyn yr archwiliad o'r gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Tachwedd 2012, pennwyd bod angen cyflwynol mesurau arbennig o fewn yr awdurdod. Ym Mawrth 2015 cwblhaodd Estyn y trydydd allan o gyfres o bedwar ymweliad monitro er mwyn asesu prosesau rheoli perfformiad y Cyngor. Yn dilyn yr ymweliad monitro hwnnw, roedd canfyddiadau Estyn ynghylch y gwasanaethau Addysg fel a ganlyn:

> 'Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu proses asesu perfformiad gorfforaethol newydd sy'n darparu system fwy cadarn ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r system yn sicrhau bod blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth plant a phobl ifanc (PPhI) yn adlewyrchiad priodol o'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae hyn yn cynorthwyo unigolion a thimau o fewn y gyfarwyddiaeth PPhI i gael gwell dealltwriaeth o'u rolau a'r modd y mae eu gwaith yn gyfrannu i waith y gyfarwyddiaeth a'r blaenoriaethau corfforaethol ehangach. Mae prosesau'r awdurdod lleol ar gyfer rheoli perfformiad bellach yn fwy cyson a thryloyw, ac mae'r staff yn y gyfarwyddiaeth PPhI yn eu deall yn well, er ei bod yn rhy gynnar eto i werthuso effeithiolrwydd y polisi a'r gweithdrefnau o ran gwella perfformiad.

Mae cynlluniau gwella gwasanaeth y PPhI yn cydweddu'n dda â'r themâu corfforaethol yn y cynllun integredig sengl. At ei gilydd, mae'r cynlluniau gwella gwasanaeth yn adlewyrchiad priodol o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. fodd bynnag, nid yw'n amlwg bob amser yn y cynllun gwell a gwasanaeth pa gamau y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd er mwyn rhoi sylw i'r meysydd sydd i'w gwella.

Mae gan y gyfarwyddiaeth PPhI system fwy effeithiol ar gyfer adrodd wrth uwch-swyddogion ac aelodau etholedig am y cynnydd gyferbyn â'r camau gweithredu yn y cynlluniau gwella gwasanaeth ac am y cyflawniad gyferbyn â'r dangosyddion perfformiad. Dechreuir gweithredu yn fwy trwyadl bellach, i ddal y staff, ar bob lefel, yn gyfrifol am eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r modd y defnyddir data perfformiad gan y gyfarwyddiaeth PPhI wedi gwella, er enghraifft, ar gyfer canfod cynnydd grwpiau hyglwyf a disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae'r awdurdod hefyd wedi gwella'r ystod o ddata yn y gwasanaeth ieuenctid, sy'n golygu bod gan yr awdurdod a'i bartneriaid well dealltwriaeth o'r modd y mae'r ddarpariaeth yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd a chyflawni. Fodd bynnag, mae'r mynediad sydd gan ysgolion at systemau rheoli gwybodaeth yn parhau'n rhy anghyson. Nid yw'r wybodaeth a'r dadansoddiadau a ddarperir yn adroddiadau'r rheolwyr yn ddigon defnyddiol bob amser i sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cyfleu'n gywir. Yn ychwanegol, nid yw timau bob amser yn rhoi digon o sylw i fanylion wrth adolygu eu perfformiad. O ganlyniad, nid yw'r meysydd y dylid eu gwella yn cael eu hadnabod yn ddigon aml.

Mae'r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol a gomisiynwyd wedi gwella ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i'r awdurdod lleol ynglŷn â safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion; ac mae hynny yn ei dro yn galluogi'r awdurdod lleol i ganfod tangyflawni a defnyddio ei bwerau statudol pan fo angen. O ganlyniad, mae'r awdurdod yn ymyrryd yn fwy priodol mewn ysgolion sy'n tangyflawni. Mae penaethiaid o ysgolion sy'n tangyflawni wedi eu gwahodd i gyfarfod craffu i roi cyfrif am y perfformiad yn eu hysgolion. Mae gan arweinwyr ysgolion bellach well amgyffrediad o'u llinellau atebolrwydd, ac mae hynny'n dechrau cael effaith fuddiol ar ganlyniadau eu disgyblion. Yn ogystal, mae trylwyredd ac eglurder y modd y gosodir targedau cyrhaeddiad yn cynyddu, ac yn helpu i hyrwyddo disgwyliadau mwy priodol ar gyfer gwelliant yn ysgolion yr awdurdod lleol.

Mae gan yr awdurdod drefniadau priodol ar gyfer craffu ar waith yr adran addysg. Mae'r trefniadau hyn yn cydweddu'n dda â monitro'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad a blaenoriaethau'r adran addysg.'

## Er bod trefniadau rheoli risg wedi gwella, maent yn parhau'n wan

127 Mae gan y Cyngor asesiadau risg sydd wedi eu mewnblannu mewn Cynlluniau Gwella Gwasanaeth, cynlluniau gwella penaethiaid adrannau a mandadau cyllideb unigol, ac mae Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan hefyd yn bodoli. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o ddiffinio a phennu lefelau risg wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

128 Ystyriwyd yr Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan tair-blynedd (2014-15 to 2016-17), ynghyd â'r fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi Rheoli Risg Strategol, gan y Cabinet ym Mawrth 2015. Fodd bynnag, unig risg lefel uchel y Cyngor yn 2014-15 oedd 'y posibilrwydd y gallai canfyddiadau negyddol o arolygiadau sydd yn yr arfaeth gan AGGCC ac Estyn ddargyfeirio egni ymaith oddi wrth raglen uchelgeisiol o drawsnewidiadau'. Ar gyfer 2015-16 nid oes gan y Cyngor unrhyw risgiau lefel uchel.

129 Mae'r Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan wedi ei lunio'n wael ac nid yw'n mynegi'n ddigon eglur y risgiau a wynebir gan y Cyngor nac y modd y'u rheolir. Nid yw'r Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan yn diffinio graddau tebygolrwydd ac effaith y risgiau, er bod y rhain wedi eu cynnwys yn y Polisi Rheoli Risg Strategol. Mae sgoriau risg, cyn ac ar ôl lliniaru, yn absennol o'r Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan. Nid fydd camau a gymerir i liniaru risg yn gyffredinol, yn newid lefel y risg. Bydd wyth allan o'r 11 o risgiau awdurdod cyfan yn parhau ar yr un lefel risg o 2014-15 i 2015-6 er gwaethaf y camau arfaethedig i liniaru'r risg. Bydd chwech o'r 11 o risgiau corfforaethol yn parhau ar yr un lefel risg am y tair blynedd. Nid yw'r Polisi Rheoli Risg Strategol a'r Canllawiau yn eglur ynghylch dwysâd risgiau ar lefel gwasanaeth. Mewn adroddiad Cabinet ar yr asesiad rheoli risg awdurdod cyfan ym Mawrth 2015 dywedwyd mai risgiau lefel Uchel a Chanolig yn unig a drafodir yn yr Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan; fodd bynnag, mae tair o risgiau lefel isel wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan.

130 Mae'r mynediad i'r Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan, a'r cyfrifoldeb amdano, yn gwella. Bydd yr Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan ar gael ar y Foth, i'w adolygu gan y staff a'r aelodau. Un o gyfrifoldebau gweithredol aelodau o'r Cabinet yw asesu'r Asesiad Risg Strategol Awdurdod Cyfan, yn flynyddol o leiaf, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am sicrhau bod fframwaith rheoli risgiau ar waith. Mae Aelod Cabinet ac uwch-swyddog atebol wedi eu dyrannu ar gyfer pob un o'r 11 o risgiau corfforaethol. Mae'r Pwyllgorau Dethol hefyd wedi adolygu risgiau yn rhan o'r broses mandadau cyllideb a'r flaenraglen gwaith.

131 Yn yr adroddiad ar yr adolygiad o'r Gwasanethau Plant, a gyhoeddwyd gan AGGCC yn Chwefror 2015, dywedir:

> 'Amrywiol oedd ansawdd y dadansoddi risgiau yn yr asesiadau; goblygedig, yn rhy aml, oedd y risg, yn hytrach nag wedi ei mynegi'n benodol.
>
> Nid oedd tystiolaeth ddigonol o gynllunio ac o ymarfer awdurdodol ar sail risg. Roedd diffygion sylweddol yn y modd y rheolid risgiau aml-asiantaethol,

yn enwedig ynglŷn â “chontractau o ddisgwyliadau”, a ddefnyddir gan y gwasanaethau cymdeithasol ac nad ydynt yn amddiffyn plant yn ddigonol. Nid oedd rheolwyr yn herio’n effeithiol arferion rheoli risg o ansawdd gwael.’

## Mae’r Cyngor yn adrodd am ei berfformiad wrth y cyhoedd ac yn eglur ynghylch sut i wella adroddiadau i’r cyhoedd yn y dyfodol; fodd bynnag, gallai darparu barn fwy cytbwys ar y perfformiad a’r gwelliant

132 Y Cynllun Gwella Cyfnod 2 blynyddol, How we performed, yw prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer rhoi gwybod i’r cyhoedd am ei berfformiad. Cyhoeddodd y Cyngor ei asesiad perfformiad blynyddol diweddaraf (2013-14) ar ei wefan ar y dyddiad terfynol statudol o 31 Hydref 2014, gan gydymffurfio gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn aneglur ynglŷn â maint y gwelliant yn ystod 2013-14, ac yn cynnwys rhai anghywirdebau.

133 Mae gwybodaeth am berfformiad ar gael i’r cyhoedd drwy’r adroddiadau monitro perfformiad ar gyfer Craffu, y Cabinet a chyfarfodydd llawn y Cyngor. Mae’r rhain ar gael ar wefan y Cyngor. Yn 2014 dechreuodd y Cyngor ffrydio cyfarfodydd Craffu, y Cabinet a’r Cyngor llawn yn fyw ar YouTube, gan arddangos didwylledd a thryloywder yn y dadleuon a’r modd y gwneir penderfyniadau. Mae hyn yn caniatáu i’r cyhoedd arsylwi’n hwylus ar gyfarfodydd a chael mynediad i’r dogfennau ategol perthnasol. Mae’r cyfle yn bodoli i’r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth am berfformiad y Cyngor, ond nid yw’n eglur a yw’r cyhoedd yn gwybod am y cyfleusterau hyn.

134 Nid oes eglurder ynglŷn â chyflwyno materion datblygu cynaliadwy ar wefan y Cyngor. Mae’n anodd cyrraedd yr adran ‘Datblygu Cynaliadwy’, a rhaid chwili am y term, a leolir ymhlith ‘busnes, cyngor a deddfwriaeth’. Nid yw yn cyfleu’r syniad fod datblygu cynaliadwy yn ‘egwyddor drefniadol ganolog’ y Cyngor. Buom yn ystyried y mater hwn yn fanylach yn ein hadolygiad o barodrwydd y Cyngor ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, y rhoddir crynodeb ohono yn Atodiad 6.

135 Mae’r Cyngor yn rhoi gwybodaeth am berfformiad ar gael i’r cyhoedd mewn ffyrdd eraill yn ogystal. Paratôdd Fwletin Perfformiad ar ôl cyhoeddi’r dangosyddion strategol cenedlaethol a mesurau atebolrwydd cyhoeddus gan Uned Ddata Cymru ym Medi 2014. roedd y bwletin hwnnw’n darparu crynodeb o berfformiad amcanion gwella 2013-16 y Cyngor. Fodd bynnag, roedd y gwasanethau a oedd yn perfformio’n dda yn cael mwy o amlygrwydd yn y bwletin, o gymharu â gwasanaethau a oedd yn tangyflawni. Gallai’r bwletin, felly, fod wedi rhoi golwg fwy cytbwys ar y perfformiad i aelodau’r cyhoedd.

136 Mae’r Cyngor yn chwilio am gyfleoedd i rannu’r data perfformiad yn ehangach. Mae wedi datblygu trefniant mewnol a fydd yn disodli Ffynnon, ac mae eisoes ar gael i staff ac aelodau ar y Foth. Nod y Cyngor yw rhoi’r data perfformiad hyn ar gael i’r cyhoedd yn y dyfodol, ar wefan y Cyngor.

# Perfformiad a chanlyniadau

## Ar gyfer 2013-14 a 2014-15, roedd y Cyngor yn eglur ynghylch yr hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni, a gall ddangos bod ei berfformiad yn symud i gyfeiriad cadarnhaol, ond oherwydd cyfyngiadau mewn rhai o'i drefniadau, nid yw'n llwyddo bob amser i arddangos effaith hynny, nac i feintioli'r gwelliant yn y canlyniadau

137 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor. Rydym yn darparu trosolwg o'r perfformiad yn 2013-14 yn ogystal ag asesiad mwy manwl o'r cynnydd gyferbyn â detholiad o Amcanion Gwella y Cyngor. Rydym hefyd yn cynnwys crynodeb o Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14 AGGCC, llythyrau ymweliad monitro Estyn hyd yma, ac asesiad Comisiynydd y Gymraeg o'r cynnydd yn Sir Fynwy.

138 Rydym yn adrodd yn benodol am ddata perfformiad 2013-14 a 2014-15, gan mai'r rhain yw'r setiau data sydd wedi eu cyhoeddir ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf yn 2014.

139 Mae'r Cyngor, o ran ei berfformiad yn gyffredinol, yn symud i gyfeiriad positif, ond cymysg fu ei lwyddiant o ran cyflawni ei gynlluniau i wella canlyniadau. Yn ei Fwletin Perfformiad ar gyfer 2013-14, roedd y Cyngor yn honni ei fod 'wedi gwella, neu wedi ei osod ymhlith yr awdurdodau uchaf [yng Nghymru] ar gyfer 70 y cant o'r dangosyddion'. Roedd hyn yn ffeithiol gywir, ond gallai fod wedi arwain y darllenydd i gredu bod y Cyngor yn perfformio yn well nag yr oedd. Mewn gwirionedd, roedd saith o'r dangosyddion, a gyfrifid yn y rhan o'r 70 y cant a oedd wedi gwella, yn y chwartel isaf; ac roedd y perfformiad mewn dau o'r dangosyddion a oedd yn y chwartel uchaf wedi dirywio.

140 Dangosir isod ein dadansoddiad o'r dangosyddion strategol cenedlaethol a mesurau atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

| Dangosyddion strategol cenedlaethol | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Nifer y DSCau | 30 | 30 | 30 |
| Nifer sydd â'u gwir werth wedi GWELLA | 19 | 17 | 12 |
| Nifer sydd â'u gwir werth wedi GWAETHYGU | 8 | 9 | 6 |
| Nifer sydd â'u SAFLE wedi GWELLA | 15 | 12 | 9 |
| Nifer sydd â'u SAFLE wedi GWAETHYGU | 9 | 8 | 6 |
| Nifer UWCHLAW cyfartaledd Cymru | 18 | 13 | 15 |
| Nifer ISLAW cyfartaledd Cymru | 12 | 16 | 14 |

| Mesurau atebolrwydd cyhoeddus: | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Nifer y MACau | 13 | 14 | 14 |
| Nifer sydd â’u gwir werth wedi GWELLA | 11 | 8 | 8 |
| Nifer sydd â’u gwir werth wedi GWAETHYGU | 0 | 5 | 5 |
| Nifer sydd â’u SAFLE wedi GWELLA | 7 | 4 | 7 |
| Nifer sydd â’u SAFLE wedi GWAETHYGU | 2 | 6 | 5 |
| Nifer UWCHLAW cyfartaledd Cymru | 10 | 9 | 9 |
| Nifer ISLAW cyfartaledd Cymru | 3 | 4 | 4 |

141 Mae data a gyhoeddwyd ar gyfer 2014-15 yn dynodi bod y perfformiad, a fesurir gan ddangosyddion strategol cenedlaethol a mesurau atebolrwydd perfformiad wedi newid fel a ganlyn – ers 2013-14 mae 30 dangosydd wedi gwella, 8 wedi dirywio a phedwar heb newid. Byddwn yn asesu’r cynnydd yn fwy trwyadl wrth gynnal ein Hasesiad o’r Perfformiad yn ddiweddarach yn 2015, ond sylwn fod hyn yn dynodi bod y Cyngor yn symud i gyfeiriad positif. Gosododd y Cyngor ei flaenoriaethau yng Nghynllun Gwella 2014-15. Er mwyn cyflawni’r blaenoriaethau hyn mae’r Cyngor wedi mabwysiadu’r pedwar Amcan Gwella a bennir ym mharagraff 30 uchod.

142 Mae’r Cyngor wedi nodi ei asesiad ei hunan o’i berfformiad gyferbyn â’i amcanion gwella yn ei adroddiad blynyddol ‘How we performed 2013-14’. Rydym wedi cymryd i ystyriaeth rywfaint o gynnwys yr adroddiad hwnnw yn ein hasesiad o gynnydd y Cyngor.

## Mae gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn parhau o dan fesurau arbennig, a bydd Estyn yn gwneud ymweliad monitro terfynol yn yr hydref 2015 i asesu a oes angen i’r awdurdod barhau o dan fesurau arbennig ai peidio

143 Arolygwyd gwasanaethau addysg y Cyngor gan Estyn ym mis Tachwedd 2012 a barnwyd eu bod yn anfoddhaol. Barnwyd hefyd fod y capasiti i wella hefyd yn anfoddhaol. Argymhelliad yr adroddiad oedd y dylid gosod y gwasanaeth o dan fesurau arbennig, a sefydlwyd Bwrdd Adfer Gweinidogol.

144 Er pan osodwyd gwasanethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc o dan fesurau arbennig, mae Estyn wedi cwblhau tri allan o’i pedwar ymweliad monitro. Gwnaed ymweliad monitro cyntaf Estyn yn Chwefror 2014,pan fu’n ystyried y cynnydd a wnaed gan yr awdurdod gyferbyn â’r argymhelliad Diogelu a oedd yn deillio o arolygiad 2012. Daeth Estyn i’r casgliad bod

‘yr awdurdod lleol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd dechreuol da wrth fynd i’r afael â’r gwendidau ynghylch diogelu a ganfuwyd ar lefel y gwasanaeth ac ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw’r gwendidau mwyaf heriol ac arwyddocaol, a ganfuwyd yn y modd y rheolir diogelu yn strategol, wedi cael sylw digonol. Nid oes gan yr awdurdod eto systemau a phrosesau gwybodaeth reoli sy’n ddigon effeithiol i’w alluogi i gael gwybodaeth reoli addas a gwerthusol ynghylch diogel. Nid oes modd iddo ganfod, fel rhan o’r drefn arferol, pa mor dda y mae’r camau a gymerwyd yn effeithio ar y modd y diogelir yr holl blant a phobl ifanc yn Sir Fynwy, nac ychwaith flaenoriaethu’r camau gweithredu yn ddigon da er mwyn gwella.’

145 Cynhaliwyd ail ymweliad Estyn ym Mehefin 2014, er mwyn asesu’r cynnydd gyferbyn dau o’r argymhellion:

- Argymhelliad 4: Gwella’r cynllunio corfforaethol i gryfhau’r dolenni cyswllt rhwng blaenoriaethau’r awdurdod lleol a’r targedau ar lefel gwasanaeth; ac
- Argymhelliad 5: Gwella hunan-werthuso ar draws yr holl wasanaethau a gwneud gwell defnydd o ddata i gynllunio gwasanaethau yn strategol a thargedu adnoddau.

146 Roedd llythyr Estyn at y Cyngor ar ôl yr ymweliad yn nodi rhai gwelliannau, ond hefyd yn tynnu sylw at nifer o wendidau, tra’n cydnabod mai cyfnod cynnar ydoedd yn hynt rhai agweddau ar y gwaith.

147 Cynhaliwyd trydydd ymweliad Estyn ym Mawrth 2015 i asesu cynnydd gyferbyn â’r argymhelliad canlynol:

- Argymhelliad 6: Sicrhau bod rheolaeth perfformiad yn effeithiol a chadarn, ac yn caniatáu i aelodau etholedig ac uwch-swyddogion adnabod a rhoi sylw i dangyflawni.

148 Roedd llythyr Estyn at y Cyngor ar ôl yr ymweliad yn nodi bod y Cyngor, yn ystod y 12 mis blaenorol, wedi datblygu proses asesu perfformiad gorfforaethol newydd, sy’n darparu system fwy cadarn ar gyfer rheoli perfformiad. Bydd yr ymweliad terfynol, a gynlluniwyd at gyfer yr hydref 2015, yn gwerthuso’r cynnydd gyferbyn â phob un o’r argymhellion.

149 Blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gwella yw: ‘Byddwn yn darparu gwell darpariaeth addysg ar gyfer Sir Fynwy’ – asesiad y Cyngor ei hunan o’i berfformiad gyferbyn â’r flaenoriaeth hon oedd ‘Digonol – Mae’r cryfderau yn gorbwyso’r gwendidau o ychydig bach’.

150 Yn ein dadansoddiad ni o’r dangosyddion strategol cenedlaethol a’r mesurau atebolrwydd cyhoeddus mewn perthynas ag Addysg ar gyfer 2013-14 roedd y perfformiad yn y rhan fwyaf yn arddangos ychydig yn well nag yn y flwyddyn flaenorol.

## Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda i wella canlyniadau i oedolion ond mae'r gwasanethau i blant yn parhau'n wan mewn nifer o feysydd. Mae pryderon penodol ynglŷn â diogelu

151 Blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gwella yw 'Byddwn yn gweithio i helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw eu bywydau eu hunain drwy adeiladu gwasanaethau hyblyg ac ymatebol' – asesiad y Cyngor ei hunan o'i berfformiad gyferbyn â'r flaenoriaeth hon oedd 'Da – Cryfderau pwysig, gyda rhai meysydd ar gyfer eu gwella'. Mae asesiad y Cyngor yn seiliedig ar naw mesur perfformiad a phedwar o weithredoedd a gynlluniwyd, ond nid yw'n eglur sut y daeth y Cyngor i'r casgliad bod y cynnydd yn 'dda'.

O blith y mesurau perfformiad:

- mae gan un darged a ddangosir fel un 'nad yw'n gymwys';
- nid oes targed gan un – dywed 'sefydlu llinell sylfaen';
- gosodir un targed ar sero pan fyddai rhif uwch wedi dynodi cynnydd;
- roedd tri tharged yn berfformiad a oedd naill ai'n uwch neu'n is, o gymharu â 2012-13;
- un o'r targedau yw perfformio'n well nag yn y flwyddyn flaenorol; ac
- mae un yn honni mesur nifer y teuluoedd a gefnogwyd gan y Tîm o Amgylch y Teulu (TAFF) ond yr hyn a ddangosir mewn gwirionedd yw nifer yr atgyfeiriadau – ac nid yr un peth yw hynny.

152 Rydym wedi seilio ein hasesiad o'r gwelliant ar y data DP uchod a phedwar adolygiad sy'n berthnasol i'r amcan gwella hwn.

153 Yn rhan o'r gwaith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ar draws y pump o Gynghorau sydd yng Ngwent, paratoesom ddogfen ar gyfer y Cyngor, a oedd yn cyflwyno:

- y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol yn Sir Fynwy, drwy feincnodi rhagamcanion poblogaeth ar gyfer plant a phobl hŷn; a
- chyfres o ddadansoddiadau a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Fynwy dros nifer o flynyddoedd, a hefyd yn gosod Sir Fynwy yng nghyd-destun y 21 o gynghorau eraill yng Nghymru.

154 Nid oedd unrhyw argymhellion na chasgliadau yn deillio o'n gwaith, gan ein bod yn darparu pecyn data i bob cyngor, a oedd yn arddangos yr wybodaeth o bersbectif gwahanol ac yn hwyluso gweithdy ar gyfer Gwent gyfan, i'w drafod gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwyr/Penaethiaid Cyllid. Cawsom adborth cadarnhaol ynglŷn â'r allbwn hwn, ac arhoswn i weld pa ddefnydd a wneir o'r dull hwn gan y Cyngor fel rhan o'i brosesau herio mewnol.

155 Daeth yr Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad Perfformiad 2013-2014 gan AGGCC i'r casgliad bod y gwasanaethau cymdeithasol, yn 2013-14, wedi parhau i wneud cynnydd cryf ac wedi perfformio'n dda mewn llawer o'r meysydd gwasanaethau oedolion. Yn achos gwasanaethau i blant, fodd bynnag, er eu bod wedi gwella rhywfaint, roedd angen gwneud rhagor i wella meysydd allweddol ac atgyfnerthu'r ymarfer ar ôl ailstrwythuro'r gwasanaethau. AGGCC: Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14 ar Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy.

156 Roedd Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14 AGGCC yn datgan:

> 'Yn y gwasanaethau i oedolion mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da i ail-siapio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n canolbwyntio ar hwyluso atebion yn y gymuned a chefnogi pobl i aros yn annibynnol am gyn hired â phosib. Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda yn erbyn llawer o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau i oedolion ac mae wedi gwella'i berfformiad yn ei adolygiadau o gynlluniau gofal. Mae gweithredu ffyrdd newydd o weithio wedi galluogi'r Cyngor i wneud arbedion yn y gwasanaethau i oedolion. Mae pobl sy'n derbyn gwasanaethau, ar y cyfan, yn rhoi adborth cadarnhaol am eu profiadau ac am y canlyniadau a gyflawnwyd.
>
> Yn y gwasanaethau plant, mae perfformiad o ran llunio cynlluniau gofal cychwynnol ac ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn wannach nag awdurdodau lleol eraill tebyg ac o'i gymharu â'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru. Canfu arolygiad o ddiogelu a llunio cynlluniau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a rhai sy'n gadael gofal sy'n arddangos ymddygiad peryglus neu ymddygiad sy'n eu gwneud yn agored i niwed, fod angen i'r Cyngor wella'n sylweddol mewn nifer o feysydd gan gynnwys asesu risg ac arferion cynllunio gofal. Mewn cyferbyniad â hyn, gwelwyd gwell perfformiad yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adolygiad a gwerthusiad blynyddol o berfformiad AGGCC yn 2012-13. Yn benodol, mae perfformiad o safbwynt asesiadau cychwynnol ac yn y pwynt cyfeirio wedi cryfhau.'

157 Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwrando ar bobl Sir Fynwy a'i fod yn deall yr hyn sy'n bwysig iddynt o ran eu hanghenion gofal cymdeithasol drwy ei arolygon, ei ymgyngoriadau a'i waith meddwl drwy systemau. Mae'n nodi hefyd lwyddiant y Cyngor yn datblygu trefniadau cydweithredol sy'n cael effaith gadarnhaol, yn bennaf drwy waith y timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y gwasanaethau i oedolion. Fodd bynnag, mae'n nodi mai araf fu'r cynnydd ynglŷn â gweithredu'r strategaethau pum mlynedd ar gyfer integreiddio anableddau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl ar draws ardal Gwent.

158 Cynhaliodd AGGCC arolygiad o'r gwasanaethau plant ym mis Tachwedd 2014, a chyhoeddwyd yr adroddiad arolygu yn Chwefror 2015. Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar bedair thema: trefniadau mynediad, asesu, rheoli ac adolygu gofal, ac arweinyddiaeth a llywodraethu. AGGCC: Adroddiad Arolygu Gwasanaethau Plant: Cyngor Sir Fynwy.

Rhestrir y prif ganfyddiadau isod.

'**Trefniadau Mynediad**: Nid oedd trothwyon rhwng "cymorth cynnar" (darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cyfeirio) ac ymyriadau statudol gan wasanaethau cymdeithasol wedi cael eu deall yn briodol, ac nid oeddent yn gweithredu'n effeithiol. Er mai gweithwyr proffesiynol o blith yr holl asiantaethau oedd yn gyffredinol yn nodi plant a phobl ifanc a oedd angen cymorth a/neu amddiffyniad, roedd yr ansawdd yn wael o ran rhannu gwybodaeth atgyfeirio. Pan gafwyd cyfathrebiadau lle roedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, gweithredwyd yn brydlon ac yn effeithiol. Fodd bynnag, os nad oedd arwyddion amlwg o niwed sylweddol, nid oedd penderfyniadau i drosglwyddo cyfathrebiadau i'r broses atgyfeirio a/neu asesiad cychwynnol yn amserol. Nid oedd y system ar gyfer olrhain/rheoli cyfathrebiadau'n dderbyniol ychwaith; roedd risg o golli achosion a/neu fod oedi sylweddol cyn i blant a theuluoedd gael y cymorth roedd angen arnynt. Nid oedd y rheolwyr yn goruchwylio trefniadau mynediad yn ddigonol. O ganlyniad i hyn, ni chafodd anghenion rhai plant eu diwallu, ac roedd posibilrwydd bod rhai wedi eu gadael yn agored i niwed sylweddol.

**Asesu**: Cafodd plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o niwed, neu a oedd yn debygol o fod yn y sefyllfa honno, eu nodi a'u hamddiffyn. Yn gyffredinol, roedd ymholiadau gwarchod plant yn drwyadl ac yn amserol, er nad oedd trafodaethau strategaeth yn cynnwys gwybodaeth o'r holl bartneriaid perthnasol yn rheolaidd. Ar y cyfan, roedd asesiadau'n amserol ac yn cynnwys gwybodaeth briodol o ystod o ffynonellau. Roedd ansawdd y gwaith dadansoddi risg o fewn asesiadau yn amrywio; yn aml roedd risg yn cael ei hawgrymu, yn hytrach na chael ei mynegi'n glir. Er bod asesiadau'n dueddol o ganolbwyntio ar blant, nid oeddent yn ystyried anghenion cyfathrebu plant bob tro. Ni nodwyd ynddynt anghenion plant o ran amrywiaeth ychwaith, ac ni chafwyd mynegiad clir o'u dymuniadau a'u teimladau'n ddigon aml. Roedd ansawdd y cofnodion drwy gydol y broses asesu yn wael, ac, o'r herwydd, methwyd â dangos tystiolaeth o fanylder yr ymchwiliad a wnaed. Ni rannwyd y rhan fwyaf o'r asesiadau â phlant a theuluoedd. Roedd goruchwyliaeth y rheolwyr o'r broses asesu'n aneffeithiol; er bod amseroldeb ac ansawdd y broses o wneud penderfyniadau'n ddigonol. Yn gyffredinol, nid oedd ansawdd yr asesiadau'n gyson. Effaith y diffyg ymgysylltu a'r diffyg tryloywder oedd nad oedd plant a theuluoedd bob amser yn deall diben y cymorth a gawsant a/neu'r angen i gael amddiffyniad.

**Rheoli ac Adolygu Gofal**: Cafodd plant a phobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth neu amddiffyniad arnynt, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, gymorth ac amddiffyniad aml-asiantaeth amserol ac effeithiol. Roedd ansawdd cynllunio ac adolygu gofal yn ddigonol. Darparwyd rhai gwasanaethau da i deuluoedd, ac roedd yn amlwg bod gwaith uniongyrchol o ansawdd da gyda phlant. Fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth ddigonol o gynllunio yn seiliedig ar risg ac arfer awdurdodol. Roedd diffygion sylweddol o ran gwaith rheoli risg aml-asiantaeth; yn enwedig o ran gwasanaethau cymdeithasol yn defnyddio "contractau disgwyliadau", sy'n methu ag amddiffyn plant yn ddigonol. Ni heriwyd arferion rheoli risg o ansawdd gwael gan reolwyr mewn ffordd effeithiol. Roedd gwasanaethau plant wedi llwyddo i gael sefydlogrwydd yn ei weithlu yn ddiweddar, ac roedd gweithwyr cymdeithasol wedi ymrwymo i

gyflawni canlyniadau da i blant a theuluoedd. Bellach, mae angen cryfhau'r sefydlogrwydd hwn a'i gynnal er mwyn gwella canlyniadau i blant a theuluoedd yn barhaus.

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu**: Roedd trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol, ac roedd trefniadau ar waith ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol. Roedd uwch arweinwyr wedi ymrwymo i wella diogelu, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu'n dda mewn cynllunio strategol. Ni roddwyd cynlluniau strategol ar led yn effeithiol drwy gydol gwasanaethau plant. Mae angen gwelliant mwy parhaus sydd â mwy o ganolbwynt er mwyn creu strategaeth effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cydweithiodd yr awdurdod yn dda â'i bartneriaid i ddarparu cymorth, gofal ac amddiffyniad i blant a phobl ifanc, gan ddangos lefel uchel o frwdfrydedd ac ymrwymiad i rianta corfforaethol.

Nid oedd dadansoddiad o anghenion ar y cyd yn lleol yn llywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer gwasanaethau plant. Nid oedd rheoli perfformiad, monitro sicrwydd ansawdd na strategaethau i sicrhau bod yr awdurdod yn cynnal diwylliant sy'n seiliedig ar ddysgu wedi cael eu mewnblannu'n ddigon da i roi dealltwriaeth fanwl o'r gwahaniaeth roedd cymorth, gofal ac amddiffyniad yn ei wneud i blant a theuluoedd. Nid oedd gallu uwch arweinwyr i oruchwylio gwaith rheng flaen gwasanaethau plant yn ddigon da.

Darparwyd gwasanaethau gan weithlu â chymwysterau addas a oedd yn brofiadol a medrus ac yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc lleol a'u teuluoedd. Mynegodd y mwyafrif o'r gweithwyr cymdeithasol hyder a pharch am yr uwch reolwyr, gan ddweud bod morâl yn uchel o fewn y gweithlu. Roedd arolygiaeth a goruchwyliaeth y rheolwyr yn hygyrch, ond nid oedd yn ddigon effeithiol o ran cefnogi'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau sy'n dwyn canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.'

## Cynhaliodd AGGCC Arolygiad Cenedlaethol o ddiogelu a chynllunio gofal, ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal sydd â'u hymddygiad yn eu gwneud yn hyglwyf neu'n peri risg

159 Yn ystod 2014-15 bu AGGCC yn cynnal arolygiad o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal sydd â'u hymddygiad yn eu gwneud yn hyglwyf neu'n peri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygiadau thematig cenedlaethol AGGCC. Gweithredwyd methodoleg yr adolygiad ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru rhwng Ionawr a Mai 2014. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd cynllunio gofal ledled Cymru, a chanfod pa mor effeithiol y gwnâi'r canlynol: cefnogi ac amddiffyn plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal:

- nodi a rheoli hyglwyfedd ac ymddygiad sy'n peri risg ymhlith plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal;
- hyrwyddo ymarfer ar sail hawliau a llais y plentyn;
- hyrwyddo canlyniadau gwell i plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal; a
- hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisi a chanllawiau.

Gellir dod o hyd i ganfyddiadau arolygiadau awdurdodau lleol unigol ac adroddiad cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC.

Yn Awst 2014, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o 'Trefniadau Awdurdodau Lleol i Helpu i Ddiogelu Plant'

160 Daethom i'r casgliad:

- bod rhai gwendidau, y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt, yn y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer goruchwylio a yw'r Cyngor yn cyflawni ai peidio ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant;
- bod rhai gwendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant;
- bod rhai gwendidau, y mae'r Cyngor yn roi sylw iddynt, yn y modd y mae'r Cyngor yn canfod gwelliannau yn ei drefniadau diogelu ac yn gweithredu arnynt; ac
- at ei gilydd, fod y trefniadau cyffredinol ar gyfer chwythu'r chwiban yn gadarn, er bod angen rhoi sylwi i rai gwendidau o ran polisi, proses a hyfforddiant.

## Mae'r Cyngor yn dangos uchelgais i adfywio'r trefi a chreu cyfleoedd cyflogaeth, ond cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ganddo i arddangos gwelliant

161 Blaenoriaeth gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 oedd 'Byddwn yn helpu i adfywio ein trefi a chynorthwyo i greu cyflogaeth o fewn y Sir' ac asesiad y Cyngor ei hunan o'i berfformiad gyferbyn â'r flaenoriaeth hon oedd 'Digonol – Mae'r cryfderau yn gorbwyso'r gwendidau o ychydig bach'. Roedd asesiad y Cyngor yn seiliedig ar saith mesur perfformiad ac wyth o weithredoedd a gynlluniwyd.

162 Allan o'r saith mesur perfformiad:

- nifer y Cynlluniau Cymuned a gwblhawyd: y targed oedd 12 a'r gwir berfformiad oedd tri;
- nifer y Prosiectau Cymuned Digidol a gychwynnwyd drwy CMC2: cyrhaeddwyd y targed o ddau;
- cyfanswm nifer y swyddi newydd a grëwyd pan ddarparwyd cymorth gan Fenter Sir Fynwy a Phartneriaid: y targed oedd 260 a'r gwir berfformiad oedd 124;
- nifer y swyddi a ddiogelwyd pan ddarparwyd cymorth gan Fenter Sir Fynwy a Phartneriaid: y targed oedd 85 a'r gwir berfformiad oedd 16; a
- nifer y prosiectau mewnfuddsoddi a sicrhawyd pan ddarparwyd cymorth gan Fenter Sir Fynwy a Phartneriaid: y targed oedd saith a'r gwir berfformiad oedd pump.

163 Yn achos y ddau darged sy'n weddill, sef nifer y busnesau a gychwynnwyd pan ddarparwyd cymorth gan Fenter Sir Fynwy a Phartneriaid, a chanran y cyfranogwyr ar gwrs cyflogadwyedd a gafodd eu cyflogi, gwnaed yn well na'r targedau. Yn achos yr wyth o weithredoedd a gynlluniwyd, mae'n amhosibl asesu'r gwir gynnydd a wnaed. Nid yw rhai o'r gweithredoedd eto wedi cael effaith y gellir ei meintioli, mae un yn cyfeirio at yr effaith ers 2012, sy'n gwneud meintioli'r effaith yn 2013-14 yn amhosibl; mae un arall hefyd nad yw'n datgan terfyn amser ac na ellir priodoli ei effaith, felly, i 2013-14.

164 Mae dull y Cyngor o ymdrin ag adfywio, a elwir 'Lle Cyfan', yn cynorthwyo'r amcan gwella hwn drwy yrru ymlaen y fframwaith Cynllun Lle Cyfan 'Seven for Severnside' sef, yn benodol, yr elfen adfywio canol trefi a datblygu'r cynllun Lle Cyfan Bryn y Cwm, ac ymyriadau o fewn cymuned y Fenni. Fodd bynnag, yr hyn a ddywedir yng Nghynllun Gwella Cyfnod 2 y Cyngor, How we performed 2013-14 yw y cafwyd 'rhai llwyddiannau unigol ar lefel y gymuned, megis cyfranogiad tîm y dref mewn trefnu arddangosfa dân gwyllt leol' yng Nghil-y-coed, ac 'nad yw'r effaith lawn i'w theimlo eto yn y gymuned'. Ynglŷn â datblygu Cynllun Bryn y Cwm, er bod y cynllun wedi dwyn ynghyd gamau gweithredu blaenoriaeth a grwpiau busnes a gwirfoddol lleol, 'nid oes modd gwerthuso'r gwahaniaeth a wnaed, gan fod y cynllun yn parhau yn ei fabandod'. Er bod gweithgarwch yn digwydd ar y lefel leol sy'n datblygu a chefnogi'r amcan hwn drwy gyfrwng Lle Cyfan, nid oes unrhyw fframwaith rheoli perfformiad, nac unrhyw dargedau perfformiad penodol o fewn y Cynllun Gwella ar gyfer meintioli effaith Lle Cyfan.

## Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol; fodd bynnag, mae arddangos gwelliant yn anodd oherwydd gwendid y modd y gosodir targedau

165 Blaenoriaeth gwella'r Cyngor yw 'Rydym am barhau yn sefydliad effeithlon ac effeithiol' ac asesiad y Cyngor ei hunan o'i berfformiad gyferbyn â'r flaenoriaeth hon oedd 'Da – Cryfderau pwysig, gyda rhai meysydd ar gyfer eu gwella'. Mae asesiad y Cyngor yn seiliedig ar 11 mesur perfformiad a naw o weithredoedd a gynlluniwyd.

Allan o'r 11 mesur perfformiad:

- nid oedd pedwar targed wedi eu gosod;
- roedd dau darged yn brin o linell sylfaen; a
- dau darged yn lefel a oedd naill ai'n uwch neu'n is o gymharu â pherfformiad 2012-13.

166 Mae'n anodd deall sut yr asesodd y Cyngor ei berfformiad cyfredol gyferbyn â'r mesurau perfformiad annelwig hyn.

## Mae’r Cyngor yn gwella ei berfformiad ynglŷn â gwastraff ac ailgylchu

167 Blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer gwella oedd ‘Rydym am weithio gyda’n preswylwyr i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a defnyddio ein hadnoddau yn fwy cynaliadwy’ ac asesiad y Cyngor ei hunan o’i berfformiad gyferbyn â’r flaenoriaeth hon oedd ‘Da – Cryfderau pwysig, gyda rhai meysydd ar gyfer eu gwella’. Mae asesiad y Cyngor yn seiliedig ar 19 mesur perfformiad a saith o weithredoedd a gynlluniwyd.

168 Allan o’r 19 mesur perfformiad:

- Mae tri ar ddeg yn ymwneud â gwastraff ac ailgylchu. Mae’r data gwastraff ac ailgylchu yn dangos bod y Cyngor wedi perfformio ymhell uwchlaw targed statudol Llywodraeth Cymru (sef 52 y cant) gyda 63 y cant, sy’n golygu bod Sir Fynwy yn y safle ail-orau drwy Gymru. Roedd y 12 targed sy’n weddill wedi perfformio’n dda o gymharu â’r perfformiad blaenorol.

- Roedd pedwar targed yn lefel a oedd naill ai’n uwch neu’n is o gymharu â pherfformiad 2012-13; targedau gwastraff ac ailgylchu oedd dau o’r rhain, a thargedau tipio anghyfreithlon oedd y ddau arall.

- Allan o’r saith o weithredoedd a gynlluniwyd, roedd pob gweithred wedi ei chyflawni, naill ai’n rhannol neu’n llwyr.

## Roedd y Cyngor yn gyffredinol yn cyflenwi gwasanaethau amgylcheddol uwchlaw’r lefelau gofynnol, ac er gwaethaf toriadau sylweddol yn ei gyllideb, roedd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol yn bennaf ynghylch y gwasanaethau cyfredol, ond isel oedd eu hymwybyddiaeth o’r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Byddai’n anodd i’r Cyngor ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau statudol newydd i amddiffyn y cyhoedd a’r amgylchedd

169 Yn Rhagfyr 2014 buom yn adolygu gwasanaethau iechyd amgylcheddol y Cyngor, yn rhan o’n hastudiaethau Cymru-gyfan. Roedd yr astudiaeth yn ystyried effaith y toriadau mewn adnoddau ar allu gwasanaethau iechyd amgylcheddol y cynghorau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

170 Daeth ein hadolygiad i’r casgliad bod ‘y Cyngor yn gyffredinol yn cyflenwi gwasanaethau amgylcheddol uwchlaw’r lefelau gofynnol, ac er gwaethaf toriadau sylweddol yn ei gyllideb, mae’r rhanddeiliaid yn gadarnhaol yn bennaf ynghylch y gwasanaethau cyfredol, ond isel yw eu hymwybyddiaeth o’r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bydd yn anodd i’r Cyngor ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau statudol newydd i amddiffyn y cyhoedd a’r amgylchedd’.

Yn yr adroddiad nodwyd y materion canlynol:

- er bod gan y cynghorau lawer o ddyletswyddau statudol yn y maes iechyd amgylcheddol, nid oedd y gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o gyni ariannol ac roedd hynny’n gwneud cyflenwi’r blaenoriaethau strategol cenedlaethol yn anos;

- roedd y Cyngor yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd amgylcheddol uwchlaw'r safonau gofynnol, o'i farnu gyferbyn â'r Safonau Arferion Gorau;
- ers 2011-12, roedd y Cyngor wedi lleihau ei gyllideb iechyd amgylcheddol, wedi gwneud arbedion yn ystod y flwyddyn ac wedi cwtogi ei staff;
- roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg staff yn gadarnhaol ynghylch safonau cyfredol y gwasanaeth iechyd amgylcheddol, ond ymhlith dinasyddion, roedd yr ymwybyddiaeth o'r perfformiad cyfredol a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn isel; ac
- roedd dyletswyddau statudol newydd yn y maes iechyd amgylcheddol yn cael eu cyflwyno, y byddai'r Cyngor yn ei chael yn anodd i'w cyflawni.

## Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd da ynglŷn â thalu Taliadau Tai Disgresiynol ond oherwydd rhai gwendidau o ran darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a dogfennu polisïau, nid oes sicrwydd a ddarparwyd yr adnoddau i'r rhai oedd fwyaf mewn angen

171 Canfu ein hadolygiad fod prosesau wedi eu sefydlu gan y Cyngor i gynorthwyo cwsmeriaid hyglwyf i wneud cais am Daliadau Tai Disgresiynol. Fodd bynnag, er bod polisi Taliadau Tai Disgresiynol yn bodoli, a fabwysiadwyd yn Ebrill 2013, nid oedd y polisi hwnnw ar gael i'r cyhoedd. Ar yr un pryd, nid oedd gan y Cyngor strategaeth gyhoeddedig ar ddiwygio lles a threchu tlodi, ac felly nid yw'n eglur sut y defnyddiodd y Cyngor y Taliadau Tai Disgresiynol i gynorthwyo pobl drwy liniaru effaith newidiadau diwygio lles megis y Cymhorthdal Ystafell Dros Ben a'r cap ar fudd-daliadau, neu fynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir gan deuluoedd eraill sydd mewn angen o ran tai. Roedd cyfeiriad at ddiwygio lles yn y Cynllun integredig Sengl, ond nid oedd yn eglur sut yr oedd hynny yn cysylltu â Thaliadau Tai Disgresiynol.

172 Mae'r Cyngor yn rhannu ei wasanaeth Budd-dal Tai gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen a defnyddid yr un dogfennau gan y ddau Gyngor. Gellir dod o hyd i wybodaeth am Daliadau Tai Disgresiynol yn rhwydd ar wefan y Cyngor drwy ddefnyddio'r cyfleuster chwilio, ac mae hynny'n darparu rhywfaint o oleuni ynglŷn â Thaliadau Tai Disgresiynol. Roedd y ffurflen gais yn cynnwys pum tudalen, a gellid ei lawrlwytho, ei hargraffu a'i hanfon at y Cyngor. Nid oedd y cyngor, fodd bynnag, yn cynnig yr opsiwn o ymgeisio ar-lein.

173 Roedd y Cyngor yn monitro'r gwariant ar Daliadau Tai Disgresiynol gyferbyn â'r swm a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y nifer o gwsmeriaid a gynorthwywyd, cyflymder prosesu'r ceisiadau a nifer y landlordiaid a gynorthwywyd. Ym mis Hydref 2013 hefyd, cyflwynodd y Cyngor adroddiad i'w Bwyllgor Dethol Oedolion ar y modd y gweinyddid y Taliadau Tai Disgresiynol. Fodd bynnag, ni fu'r Cyngor yn monitro effaith y Taliadau Tai Disgresiynol, na'r modd yr oedd yn helpu pobl hyglwyf. Ar ddiwedd Tachwedd 2014, roedd y Cyngor wedi talu allan £148,914 gyferbyn â'i ddyraniad o £127,731 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, i gynorthwyo 996 o geiswyr. Roedd hyn yn cynrychioli 116 y cant

o'i ddyraniad. Er bod y Cyngor i'w ganmol am dalu mwy mewn Taliadau Tai Disgresiynol nag a ddyrannwyd iddo, rhaid goleddfu hynny drwy nodi na ellir bod yn sicr, heb fonitro'n briodol, fod y penderfyniadau cyllido wedi eu gwneud er budd y bobl gywir.

## Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd positif o ran hyrwyddo'r Gymraeg drwy ymgysylltu â phreswylwyr lleol a gwella ei wasanaethau cyfieithu

174 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i rym ar 31 Mawrth 2015 mewn is-ddeddfwriaeth a oedd yn gosod safonau ar sefydliadau. Mae'r Comisiynydd wedi parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddodd o dan Ddeddf y Gymraeg 1993.

175 Bu Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu, a chynghori ynghylch, cynlluniau iaith Gymraeg. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg sy'n amlinellu ei berfformiad o ran cyflawni ei gynllun iaith. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn darparu ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel y bo gofyn.

176 Canfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg oedd: 'Mae'r Cyngor wedi datblygu gwefan gorfforaethol ddwyieithog newydd. Mae dros 90 y cant o'r cynnwys bellach ar gael yn Gymraeg, a chymerwyd camau i sicrhau na ellir lanlwytho deunydd i'r wefan os yw ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â 130 o drigolion Sir Fynwy sy'n siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau cywirdeb a chyfanrwydd y dogfennau a gyfieithir, ac mae aelodau o'r rhwydwaith hwnnw hefyd yn monitro cynnwys y wefan. Ar ôl cymeradwyo'r Strategaeth Sgiliau Cymraeg, cychwynnwyd archwiliad i ganfod nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y Cyngor, a'u rolau o fewn y sefydliad. Bydd yr ymarferiad hwnnw'n galluogi'r Cyngor i asesu ei anghenion recriwtio a hyfforddi yn y dyfodol. Mae'r adran Gofal Cymdeithasol a Thai hefyd yn cynnal archwiliad tebyg, er mwyn cyflawni ymrwymiadau mewn perthynas â'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau... '. Mae polisi golygyddol Cymraeg newydd wedi ei gyhoeddi, a darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd am y tro cyntaf erioed yn hanes y Cyngor yn ystod cyfarfod cynllunio ym Mrynbuga. Mae'r adran Gwasanaethau Ieuenctid yn darparu gwasanaeth cwnsela a chynghori cyfrwng Cymraeg i bob ifanc.'

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Fynwy

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar ba un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Non Jenkins, Rheolwr
Dave Wilson, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Sir Fynwy

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Sir Fynwy (Y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau y Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copïau: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
David Wilson, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Peter Fox
Arweinydd
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Radur
Brynbuga
Sir Fynwy
NP15 1GA

Annwyl Gynghorydd Fox

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Fynwy 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau o ran adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- sefydlu systemau o reolaethau mewnol i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw o dan arolwg drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlondeb ac effeithiolrwydd yn y modd y defnyddir ei adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gwneud yn ofynnol fy mod i:

- darparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y defnyddir ei adnoddau; a
- dyroddi tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA /LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014, rhoddais farn archwilio diamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Cyngor llawn yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 19 Medi ac ar 25 Medi, yn eu trefn.

Adroddasom fod nifer o ddiwygiadau wedi eu gwneud yn y datganiadau ariannol drafft, gan gynnwys rhai diwygiadau dosbarthu materol berthnasol. Nid effeithiodd yr un o'r diwygiadau hyn, fodd bynnag, ar sefyllfa na balansau terfynol y Cyngor. Yn y datganiadau ariannol hefyd roedd dau gamddatganiad nas cywirwyd ond nad oeddent yn faterol berthnasol, ac felly ni wnaed addasiad ar eu cyfer. Cyflwynir adroddiad manylach, yn ymwneud â'r materion hyn a rhai materion eraill a nodwyd yn ystod ein harchwiliad, i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Rhagfyr.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y defnyddir ei adnoddau

Roedd fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu hefyd ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol ynghylch ei sefyllfa ariannol. Er gwaethaf y tanwariant o £877,000 a gyflawnodd y Cyngor gyferbyn â'i gyllideb 2013/14, canfu y bydd bwlch o tua £20.7 miliwn yn ei gyllid dros y cyfnod 2014/15 i 2017/18, ac mae wedi sefydlu cynllun arbedion i'w helpu i bontio'r bwlch hwnnw. Mae'r heriau hyn wedi dwysáu o ganlyniad i'r setliad llywodraeth leol diweddar, a fydd yn gwneud toriad pellach o 4.3% yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2015-16. Rydym wedi cwblhau gwaith yn ddiweddar i asesu sefyllfa ariannol y Cyngor, a bydd adroddiad ar y gwaith hwnnw yn dilyn yn ddiweddarach eleni.

## Rwyf wedi dyroddi tystysgrif sy'n cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi ei gwblhau ar 30 Medi 2013

## Nid yw fy ngwaith hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi codi unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 nac ar systemau ariannol allweddol

Er na chanfuwyd unrhyw faterion hyd yma, mae hwn yn gyfnod cymharol gynnar yn ein gwaith archwilio ar ardystio grantiau. Bydd adroddiad manwl ar fy ngwaith ynglŷn ag ardystio grantiau yn dilyn yn ystod Chwefror 2015, unwaith y bydd rhaglen y flwyddyn hon o waith ardystio wedi ei chwblhau.

**Bydd y ffi am archwiliad ariannol 2013-14 yn fwy, o £5,070, na'r ffi a bennwyd yn yr Amlinelliad Archwiliad Blynyddol**. Roedd ein Hamlinelliad Archwiliad Blynyddol yn gosod ein ffi r gyfer 2013-14 ar £176,068. Yn anffodus, roedd yn ofynnol ein bod yn gwneud rhagor o waith nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, ac mae'n rhaid i'n ffi ddiwallu'r costau a dynnir wrth gyflenwi'r archwiliad. Mae'n debygol, fodd bynnag, y bydd gostyngiad yn ein ffi ardystio grantiau yn gwneud mwy na gorbwyso'r ffi ychwanegol a godir o ganlyniad i hyn.

Yr eiddoch yn gywir,

**Ann-Marie Harkin**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

Copïau: Mr Paul Matthews, Prif Weithredwr
Mrs Joy Robson, Pennaeth Cyllid

# Atodiad 5 – Crynodeb o’r gwaith a wnaed ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y ‘rheoleiddwyr perthnasol’

| Enw’r prosiect | Disgrifiad cryno | Dyddiadau [pa bryd y gwnaed y gwaith] |
|---|---|---|
| **Asesiad corfforaethol gan gynnwys olrheinyddion** | Darparu datganiad o sefyllfa awdurdod gwella o ran ei gapasiti a’ alluoedd i ddarparu gwelliant parhaus. | Ionawr, Chwefror a Mawrth 2015 |
| **Adroddiad ar Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol** | Darparu barn ar pa un a yw’r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol Cyngor Sir Fynwy ar 31 March 2014 ac ar ei incwm a’i wariant am y flwyddyn sy’n diweddu bryd hynny. | Medi 2014 |
| **Asesiad o’r Cynllunio Ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor a’r modd y mae’n cyllidebu ac yn cyflawni’r arbedion sy’n ofynnol. | Gorffennaf ac Awst 2014 |
| **Archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru o’r ‘Cynllun Gwella Blynyddol’** | Adolygu cynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni ei amcanion gwella. | Mai 2014 |
| **Archwiliad Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru o’r ‘Asesiad o Berfformiad’** | Adolygu asesiad perfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu’r wybodaeth am berfformiad. | Tachwedd 2014 |
| **Adolygiad o drefniadau’r Cyngor ar gyfer diogelu, gan gynnwys ei bolisi a threfniadau ar gyfer chwythu’r chwiban** | Adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd y Cyngor ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu wedi eu sefydlu, ac y cydymffurfir â’r polisïau a’r gweithdrefnau hynny. | Mawrth i Fai 2014 |
| **Cyflawni â Llai –Iechyd Amgylcheddol** | Y gyntaf mewn cyfres o astudiaethau sy’n edrych ar y modd y mae cynghorau yn llwyddo i gyflawni â llai; roedd yr astudiaeth hon yn ystyried effaith y r toriadau mewn adnoddau ar allu’r gwasanaethau iechyd amgylcheddol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. | Rhagfyr 2014 |
| **Rheoli effaith newidiadau Diwygio Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru** | Adolygu’r trefniadau i reoli effaith diwygio lles. Bu’r Cyngor yn derbyn adborth lleol yn ychwanegol at yr adroddiad cenedlaethol | Mawrth 2015 |
| **Adolygiad Ansawdd Data** | Adolygu sampl bach o ddangosyddion perfformiad yr adroddwyd arnynt i asesu cywirdeb y data. | Chwefror 2015 |

| Enw’r prosiect | Disgrifiad cryno | Dyddiadau [pa bryd y gwnaed y gwaith] |
|---|---|---|
| **Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol** | Adolygiad ledled Gwent, a wnaed ar y cyd ag AGGCC, o gynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ystyried perfformiad, rheolaeth a gwariant refeniw dros gyfnod o nifer o flynyddoedd. | Ebrill 2014 i Ionawr 2015 |
| **Arolygiad Cenedlaethol AGGCC: Diogelu a Chynllunio gofal plant sy’n derbyn gofal ac ymadawyr sydd â’u hymddygiad yn eu gwneud yn hyglwyf neu’n peri risg – Arolygiad o Gyngor Sir Fynwy** | Asesiad o ansawdd Diogelu a Chynllunio Gofal. | Ebrill 2014 |
| **Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2013-14** | Adolygiad Blynyddol o Wasanaethau Cymdeithasol. | Hydref 2014 |
| **Arolygiad AGGCC o’r Gwasanaethau Plant** | Adolygiad a fu’n ystyried profiadau plant a phobl ifanc yr oedd arnynt angen cymorth a’u hamddiffyn neu sy’n parhau mewn angen o’r fath. | Tachwedd 2014 |
| **Estyn – Gwasanaeth Addysg yr Awdurdod Lleol** | Ymweliadau Monitro. | Mehefin 2014 a Mawrth 2015 |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | Adolygu dull y Cyngor o ymdrin â’r Gymraeg | Ionawr 2015 |
| **Adolygiad o’r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir** | Adolygu’r cydweithrediad rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen (CBST), Cyngor Sir Fynwy (CSF) ac Awdurdod Heddlu Gwent (Heddlu Gwent bellach) i gyflenwi gwasanaethau TG a rennir i’r tri sefydliad. | Mai 2015 |

# Atodiad 6 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: sylwadau ar barodrwydd

Yn ychwanegol at y rhaglen hon o waith archwilio a nodir uchod, gofynnodd Cyngor Sir Fynwy i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad o barodrwydd y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethedig ( y Ddeddf)[2], yn rhan o'r cymorth a ddarperir o dan Raglen Mabwysiadwyr Cynnar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgysylltu â'r rhaglen Mabwysiadwyr Cynnar i gynorthwyo gwella a goleuo ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i'r Ddeddf.

Wrth ymateb i gais y Cyngor, manteisiodd yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfle a gynigid gan yr Asesiad Corfforaethol arfaethedig er mwyn cynnal bras-adolygiad o barodrwydd y Cyngor ar gyfer gofynion y Ddeddf. Digwyddodd yr adolygiad ochr yn ochr â'r Asesiad Corfforaethol, ond ar wahân iddo. Manteision y dull hwn oedd:

- Cynnal cyfanrwydd y fethodoleg a'r dull Asesu Corfforaethol.
- Lleihau'r effaith ar y Cyngor drwy ddefnyddio trefniadau'r Asesiad Corfforaethol i gynnal gweithgareddau'r adolygiad.
- Caniatáu i'r Asesiad Corfforaethol oleuo'r adolygiad o barodrwydd.
- Yr allbwn yw sylwebaeth fer, a ddilynir gan ddigwyddiad 'bord gron' o ddysgu ar y cyd rhwng cyfranogwyr o'r Cyngor, CLlLC a Swyddfa Archwilio Cymru. Rhydd hyn gyfle i nodi'r pwyntiau dysgu allweddol a chytuno sut y dylid rhannu'r dysgu yn ehangach gyda'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Canfyddiad ein hadolygiad o barodrwydd oedd fod gan y Cyngor uchelgais, a ddatganwyd yn eglur, i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau gosod rhai o'r sylfeini ar gyfer creu a mewnblannu dull mwy systematig o ymdrin â datblygu cynaliadwy. Yn ystod y cyfnod cynnar presennol, fodd bynnag, mae diffyg cysondeb o ran neges, dealltwriaeth a'r dull o weithredu, ac ni ddefnyddir y prosesau busnes allweddol i fewnblannu datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cyfrannu at y diffyg cyswllt rhwng uchelgais ac ymarfer y Cyngor.

Tybiwn fod sefyllfa'r Cyngor yn debyg i sefyllfa cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ystod dyddiau cynnar eu hymateb i'r ddeddfwriaeth newydd hon.

2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd, amcanu i osgoi problemau, a gweithredu mewn ffordd sy'n fyw cydlynol. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cymryd rhan yn y fenter, a gefnogir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar gyfer awdurdodau lleol sydd wedi gwirfoddoli i fod yn fabwysiadwyr cynnar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Atodiad 7 – Crynodeb o ganfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd ers yr AGB diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn, a Chomisiynydd y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Archwilio cyfrifon** | Ar 30 Medi 2014 cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac ar ei wariant a'i incwm am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 (Atodiad 4) |
| **Cynllunio gwelliant ac adrodd am archwiliadau** | Dyroddwyd tystysgrifau archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a oedd yn datgan bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (gweler Atodiadau 2 a 3). |
| **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol** | Mae gan y Cyngor weledigaeth ac ymdeimlad o bwrpas a fynegwyd yn eglur ac sy'n cymryd i ystyriaeth y cyd-destun lleol, ond mae angen iddo ategu hynny gyda strategaeth drefniadol gydlynol ar gyfer ysgogi newid a chyflawni ei uchelgais.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi yn eglur ei ddisgwyliadau o ddiwylliant o arweinyddiaeth agored a chynhwysol, er nad yw'r disgwyliadau hynny, hyd yma, wedi eu mewnblannu'n llawn yn y sefydliad<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015 |
| **Llywodraethu ac atebolrwydd** | Mae diwylliant o ymddiriedaeth a pharch cilyddol yn bodoli rhwng Cynghorwyr a swyddogion ac yn creu perthnasau gwaith cynhyrchiol, er bod enghreifftiau o benderfyniadau y gellid bod wedi eu gwneud mewn ffordd fwy cadarn, gwybodus ac agored i herio effeithiol.<br><br>Mae gan y Cyngor rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n eglur, mae'n datblygu diwylliant o atebolrwydd ac yn ymgysylltu â'r staff i fewnblannu ei werthoedd a'i ymddygiadau disgwyliedig yn well.<br><br>Mae rheolaeth dda ar y risgiau a gymerir, ac ansawdd y penderfyniadau wneir, weithiau'n cael eu llesteirio gan ddiffyg cyfeiriad strategol, data o ansawdd gwael a chyfyngiadau o ran monitro cyfreithiol.<br><br>Mae'r Cyngor wedi gwella tryloywder ei adroddiadau cyhoeddus ynghylch busnes y Cyngor, ond mae rhai gwendidau'n parhau.<br><br>Mae'r Cyngor yn cymryd camau i wella'r craffu, ond mae ansawdd gwael yr wybodaeth ac anwadalwch yr herio weithiau'n amharu ar y cynnydd a wneir.<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015 |

| | |
|---|---|
| **Defnyddio adnoddau** | Mae'r Cyngor wedi dechrau cryfhau ei gynllunio strategol er mwyn sicrhau gwell rheolaeth ar adnoddau, i'w helpu i gyflawni ei weledigaeth.<br><br>Mae trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn rhai cadarn at ei gilydd, er y gellid eu datblygu ymhellach er mwyn cynorthwyo'n well y gwaith o gyflawni gweledigaeth strategol y Cyngor ac ymdopi â'r heriau ariannol sy'n ei wynebu.<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015<br><br>Roedd gan y Cyngor, yn gyffredinol, drefniadau rheolaeth ariannol digonol, ond roedd rhai gwendidau a allai effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gynlluniau ariannol.<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Awst 2014. Mae'r adroddiad ar gydnerthedd ariannol ar gael yma.<br><br>Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad, ond er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau dynol, fodd bynnag, dylai'r Strategaeth hon fod wedi ei seilio ar gynllunio'r gweithlu ledled y sefydliad, ac ar weithredu proses gyflawn o arfarnu, drwy'r Cyngor cyfan.<br><br>Mae gan y Cyngor bolisi strategol eglur ynglŷn â rheoli asedau, ond yn ymarferol, gellid rheoli'r asedau yn fwy effeithiol i gynorthwyo gyda chyflawni'r blaenoriaethau strategol.<br><br>Mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau Technoleg Gwybodaeth i ategu ei weledigaeth strategol, ond mae angen gwneud rhagor o waith.<br><br>Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau digonol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth, ond mae'n cydnabod ac wedi dechrau mynd i'r afael â rhai gwendidau.<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015 |

| | |
|---|---|
| **Cydweithio a phartneriaeth** | Mae gan y Cyngor ddiwylliant o gydweithio ac mae'n ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid a phartneriaid cymunedol; mae'n datblygu cynlluniau cyflenwi, targedau a threfniadau monitro a fydd yn ei alluogi i ddarparu eglurder ynghylch y canlyniadau a ddisgwylir a dangos gwelliant<br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015<br>Mae'r Cyngor yn ymroi'n rhagweithiol i gydweithio gydag ystod o randdeiliaid a phartneriaid, ac y gwella atebolrwydd a threfniadau craffu.<br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015<br>Nid oedd gweledigaeth strategol ar gyfer y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir wedi ei sefydlu ar ei ddechreuad, ac mae hynny wedi cyfrannu at y gwendidau yn y modd y cafodd y gwasanaeth a ymddangosodd ei reoli a'i lywodraethu. Mae'r partneriaid wedi cydnabod yr anawsterau hyn ac yn rhoi sylw iddynt fel rhan o adolygiad strategol mewnol.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mai 2015. |
| **Rheoli gwelliant** | Er bod systemau, gweithdrefnau a chanllawiau wedi eu sefydlu, nid yw'r Cyngor yn rheoli perfformiad, gwelliant a risgiau yn gyson<br>Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur Llywodraeth Leol, ond mae angen gwneud rhagor i gryfhau'r trefniadau cymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwelliannau cadarn ac effeithiol.<br>Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn gwella, ac angen eu datblygu ymhellach i gynorthwyo'n llawn y gallu i wneud penderfyniadau a gwelliannau cadarn ac effeithiol.<br>Er bod trefniadau rheoli risg wedi gwella, maent yn parhau'n wan.<br>Mae'r Cyngor yn adrodd am ei berfformiad wrth y cyhoedd ac yn eglur ynghylch sut i wella adroddiadau i'r cyhoedd yn y dyfodol; fodd bynnag, gallai darparu barn fwy cytbwys ar y perfformiad a'r gwelliant.<br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015 |

| Perfformiad a chanlyniadau | |
|---|---|
| | Ar gyfer 2013-14 a 2014-15, roedd y Cyngor yn eglur ynghylch yr hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni, a gall ddangos bod ei berfformiad yn symud i gyfeiriad cadarnhaol, ond oherwydd cyfyngiadau mewn rhai o'i drefniadau, nid yw'n llwyddo bob amser i arddangos effaith hynny, nac i feintioli'r gwelliant yn y canlyniadau.<br><br>Mae'r Cyngor, o ran ei berfformiad, yn symud i gyfeiriad cadarnhaol yn gyffredinol, ond cymysg oedd ei lwyddiant o ran cyflawni ei gynlluniau i wella canlyniadau.<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015<br><br>Mae gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn parhau'n destun mesurau arbennig, a bydd Estyn yn trefnu ymweliad monitro terfynol yn yr hydref, 2015, er mwyn asesu a fydd mesurau arbennig yn parhau'n ofynnol ar gyfer yr awdurdod.<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015<br><br>Roedd llythyr Estyn at y Cyngor ar ôl yr ymweliad yn nodi rhai gwelliannau, ond hefyd yn tynnu sylw at nifer o wendidau, tra'n cydnabod mai cyfnod cynnar ydoedd yn hynt rhai agweddau ar y gwaith.<br><br>**Estyn** – Mehefin 2014. Llythyr canlyniad ymweliad monitro Estyn Mehefin 2014 ar Gyngor Sir Fynwy.<br><br>Roedd llythyr Estyn at y Cyngor ar ôl yr ymweliad yn nodi bod y Cyngor, yn ystod y 12 mis blaenorol, wedi datblygu proses asesu perfformiad gorfforaethol newydd, sy'n darparu system fwy cadarn ar gyfer rheoli perfformiad.<br><br>**Estyn** – Llythyr canlyniad ymweliad monitro Estyn Mawrth 2015 ar Gyngor Sir Fynwy.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda i wella'r canlyniadau i oedolion, ond mae'r gwasanaethau i blant yn parhau'n wantan mewn nifer o feysydd. Mae pryderon penodol ynglŷn â diogelu.<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015<br><br>Roedd y Cyngor yn ystyried sut i ddefnyddio data ariannol a data perfformiad o'n gwaith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol ledled y pum cyngor yng Ngwent, i gynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Chwefror 2015 |

| Perfformiad a chanlyniadau (parhad) | |
|---|---|
| | Yn 2013-14, parhaodd y gwasanaethau cymdeithasol i wneud cynnydd cryf pherfformio'n dda mewn llawer o'r meysydd gwasanaethau oedolion. Yn achos gwasanaethau i blant, fodd bynnag, er eu bod wedi gwella rhywfaint, roedd angen gwneud rhagor i wella meysydd allweddol ac atgyfnerthu'r ymarfer yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaethau<br><br>**AGGCC** – Hydref 2014. AGGCC: Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14 ar Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy.<br><br>Cynhaliodd AGGCC arolygiad o'r gwasanaethau plant ym mis Tachwedd 2014, a chyhoeddwyd yr adroddiad arolygu yn Chwefror 2015. Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar bedair thema: trefniadau mynediad, asesu, rheoli ac adolygu gofal, ac arweinyddiaeth a llywodraethu.<br><br>**AGGCC** – Chwefror 2015. Adroddiad Arolygu AGGCC ar Wasanaethau Plant Cyngor Sir Fynwy.<br><br>Cynhaliodd AGGCC Arolygiad Cenedlaethol o ddiogelu a chynllunio gofal, ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal sydd â'u hymddygiad yn eu gwneud yn hyglwyf neu'n peri risg.<br><br>**AGGCC** – Awst 2014. Gellir dod o hyd i ganfyddiadau arolygiadau awdurdodau lleol unigol ac adroddiad cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC.<br><br>Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru am drefniadau'r Cyngor ar gyfer cynorthwyo i ddiogelu plant ym mis Hydref 2014:<br><br>Bod rhai gwendidau, y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt, yn y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer goruchwylio a yw'r Cyngor yn cyflawni ai peidio ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant<br><br>Bod rhai gwendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant.<br><br>Bod rhai gwendidau, y mae'r Cyngor yn roi sylw iddynt, yn y modd y mae'r Cyngor yn canfod gwelliannau yn ei drefniadau diogelu ac yn gweithredu arnynt.<br><br>At ei gilydd, bod y trefniadau cyffredinol ar gyfer chwythu'r chwiban yn gadarn, er bod angen rhoi sylwi i rai gwendidau o ran polisi, proses a hyfforddi.<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Hydref 2014. Adroddiad ar Drefniadau Cynorthwyo i Ddiogelu Plant. |

| Perfformiad a chanlyniadau (parhad) | |
|---|---|
| | Mae'r Cyngor yn dangos uchelgais i adfywio'r trefi ac i greu cyfleoedd cyflogaeth, ond cyfyngedig yw'r dystiolaeth sydd ganddo i ddangos gwelliant.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol; fodd bynnag, mae arddangos gwelliant yn anodd oherwydd gwendid y modd y gosodir targedau.<br><br>Mae'r Cyngor yn gwella ei berfformiad ynglŷn â gwastraff ac ailgylchu.<br><br>**Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru** – Tachwedd 2015<br><br>Roedd y Cyngor yn gyffredinol yn cyflenwi gwasanaethau amgylcheddol uwchlaw'r lefelau gofynnol, ac er gwaethaf toriadau sylweddol yn ei gyllideb, roedd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol yn bennaf ynghylch y gwasanaethau cyfredol, ond isel oedd eu hymwybyddiaeth o'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Byddai'n anodd i'r Cyngor ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau statudol newydd i amddiffyn y cyhoedd a'r amgylchedd.<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Rhagfyr 2014<br><br>Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd da ynglŷn â thalu Taliadau Tai Disgresiynol ond oherwydd rhai gwendidau o ran darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a dogfennu polisïau, nid oes sicrwydd a ddarparwyd yr adnoddau i'r rhai oedd fwyaf mewn angen.<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Ionawr 2015<br><br>Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd positif o ran hyrwyddo'r Gymraeg drwy ymgysylltu â phreswylwyr lleol a gwella ei wasanaethau cyfieithu.<br><br>**Comisiynydd y Gymraeg** – Medi 2014 – Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i adroddiad monitro blynyddol 2013-14 ar Gynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy. |

# Atodiad 8 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 9 – Argymhellion a wnaed a meysydd i'w gwella a nodwyd gan AGGCC yn ystod y flwyddyn

**AGGCC– Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14– Meysydd i'w gwella**

Dylai'r Cyngor:

- weithio gyda'i gydweithwyr yn y byd addysg i sicrhau bob plant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl yn cael gwasanaethau CAMHS priodol i fodloni eu hanghenion;
- gweithredu mewn ymateb i'r meysydd i'w gwella a amlygwyd yn yr arolygiad o blant sy'n derbyn gofal.;
- rhoi systemau ar waith i werthuso effaith y gwaith a wnaed gan yr uned diogelu a sicrhau ansawdd i wella trefniadau diogelu ym maes addysg;
- adolygu'r strwythur a'r ymarfer yn y Tîm Cymorth i Deuluoedd i sicrhau bod pryderon yn cael eu nodi ac yn cael sylw mewn modd amserol;
- dylai'r cyngor wella ei berfformiad o safbwynt ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal;
- adolygu ymarfer a pherfformiad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a chymryd y camau priodol i wella yn y maes hwn;
- sicrhau bod CAP ar waith ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal sydd angen un;
- gwella ymhellach o safbwynt cwblhau'r adolygiadau plant mewn angen yn unol â'r amserlen statudol;
- sicrhau bod gan y cyngor ddealltwriaeth dda o lefel anghenion pobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn ogystal ag o'i gyfrifoldebau rhianta corfforaethol; a
- gweithredu'r strategaeth rhianta corfforaethol.

**AGGCC – Arolygu Gwasanaethau Plant – Chwefror 2015**

**A1** Dylid darparu hyfforddiant i'r holl weithwyr proffesiynol/asiantaethau er mwyn sicrhau eu bod yn deall yn glir y trothwyon ar gyfer cael mynediad at wasanaethau plant, a'u bod yn eu gweithredu'n gyson; dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys cwblhau gwybodaeth atgyfeirio ac adroddiadau o ansawdd da i'r gynhadledd.

**A2** Dylid cael systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr holl blant sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer asesiad cychwynnol gan wasanaethau plant yn derbyn asesiad amserol o ansawdd da er mwyn sicrhau eu diogelwch.

**A3** Dylai trafodaethau a phenderfyniadau ynglŷn â strategaethau gynnwys yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol, gan gofnodi'r sail resymegol dros wneud penderfyniadau a'r amserlenni gweithredu y cytunwyd arnynt.

**A4** Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai'r holl staff a'r rheolwyr sicrhau bod eu cofnodion o ansawdd da, yn gyfoes, ac yn cael eu storio'n gyfundrefnol.

**A5** Dylid gwella ansawdd gwaith asesu risg a rheoli risg; dylid adolygu polisïau a phecynnau cymorth er mwyn canolbwyntio'n glir ar asesu a rheoli risg mewn gwasanaethau plant, a dylai'r staff dderbyn hyfforddiant priodol. Ni ddylid defnyddio "contractau disgwyliadau" i reoli risg; dylid dechrau prosesau statudol ar gyfer amddiffyn plant os oes pryderon ynghylch diogelu.

**A6** Dylid canolbwyntio'n fwy ar ymgysylltu â phlant a'u cynnwys yn y broses asesu; dylai hyn gynnwys rhoi mwy o ystyriaeth i anghenion cyfathrebu plant, a dadansoddiad manylach o'u hanghenion diwylliannol a chrefyddol, yn ogystal ag anghenion eraill yn ymwneud ag amrywiaeth.

**A7** Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, ac yn canolbwyntio'n glir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant. Dylai'r canlyniadau, amserlenni a'r atebolrwydd a ddymunir ar gyfer camau gweithredu fod yn glir.

**A8** Dylai trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys craffu ar alw am y gwasanaeth ac archwiliadau rheolaidd o ansawdd arfer, gael eu mewnblannu'n fwy effeithiol er mwyn i reolwyr ar bob lefel gael gwybodaeth amserol, berthnasol a manwl gywir am berfformiad a sicrwydd ansawdd, er mwyn eu galluogi i wneud eu swyddi'n effeithiol ac i gyflawni gwelliannau.

**A9** Dylid gwella cysondeb ac ansawdd gwaith y rheolwyr o arolygu, cyfarwyddo a goruchwylio staff y rheng flaen drwy gydol gwasanaethau plant.

**A10** Dylai uwch arweinwyr gymryd camau i wella eu gallu i oruchwylio gwaith rheng flaen a sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen i wasanaethau plant yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwaith o gyflawni'r gwelliannau'n cael ei gynnal.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru